

Undeb y Chwarelwyr

1908-1929

Gan OWEN PARRY, M.A.

Ysgrifennwyd y bennod hon o hanes Undeb y Chwarelwyr i ddathlu gwasanaeth Mr. R.T. Jones i chwarelwyr Arfon a Meirion am un mlynedd ar hugain.

CYNHWYSIAD

RHAGAIR	4
CYN Y RHYFEL	
1. Arweiniol	5
2. Cynnydd mewn adfyd	7
3. Acanion Newydd	11
Y RHYFEL	
1. Yr Undeb a'r Rhyfel	15
2. Yr Undeb gartref.	17
WEDI'R RHYFEL	
1. Amgylchiadau newydd	22
2. Y berthynas newydd	25
3. Cynnydd y cysylltiadau	29

RHAGAIR

Cyflwynir i'r aelodau y crynhodeb hwn o hanes yr Undeb, o 1908 ymlaen, ar derfyn yr unfed-mlynedd-ar-hugain o ysgrifenyddiaeth R. T. Jones. Penderfynodd y cynghorau gweithiol a chyffredinol gyhoeddi y llyfryn hwn i ddathlu'r achlysur ac i ddangos eu gwerthfawrogiad o wasanaeth yr Ysgrifennydd i'r Undeb ac i'r chwarelwyr. Yn ystod y cyfnod hwn y mae cyfnewidiadau mawr a phwysig wedi digwydd ym mywyd a moddion bywoliaeth y chwarelwr. Y mae iddo heddiw fyrrach oriau gwaith, sicrwydd cyflog wythnosol ac, yn bwysicach hwyrach na dim, y mae iddo lais ym mheniderfyniad amodau ei gyflogiad. Y mae ei dynged fel chwarelwr heddiw, i raddau helaethach nag erioed, yn ei law ei hun. Yn wahanol i fwyafrif dosbarthiadau eraill o weithwyr daeth y breintiau hyn i feddiant y chwarelwr trwy drafodaeth ac nid fel canlyniad Sefyll Allan. Cyrhaeddiad campus, ond y mae i hyn ei beryglon, gan mai ar y pethau hynny sydd wedi costio mwyaf i ni eu sicrhau y byddwn yn cadw y wyliadwriaeth fwyaf ofalus. Y mae lliaws gyda ni heddiw na fuont o dan yr hen oruchwyliaeth, ac sydd heb feddu profiadau y cyfnod hwnnw. Teimlai y cynghorau y gallai y cyhoeddiad hwn fod yn foddion i oleuo'r ifanc, ac i atgoffa y rhai hŷn o'r hyn y mae y chwarelwyr wedi dod trwyddo, fel y gallont werthfawrogi yn well eu breintiau a gwybod beth sydd iddynt i'w ochel ac i'w wyllo. Credwn y bydd i ddarllenwyr y cyhoeddiad hwn deimlo y gall R. T. Jones fod yn falch o'i waith ac o'i wasanaeth i'r chwarelwr. Y mae wedi dod a mwy o sicrwydd i'w fywyd ac wedi rhoddi urddas a pharchusrwydd ar ei alwedigaeth. R. W. WILLIAMS.

ARWEINIOL.

I.

.—Ym mhwyllgor gweithiol Awst, 1907, datganodd y diweddar W. H. Williams, Mynydd Llandegai, ei fwriad i ymneilltuo o'i swydd fel ysgrifennydd ariannol Undeb y Chwarelwyr. Nid oedd hyn namyn rhybudd i derfynu'r berthynas swyddogol o ddeng mlynedd a fu rhyngddo ef a'r chwarelwyr. Cyswllt cyntaf y berthynas oedd ei ymweliad â Chyngor Cyffredinol Ebrill. 1897, i roi adroddiad o'r safle yn helynt cyntaf y Penrhyn. Y flwyddyn honno ef a lywyddai yn yr Wyl Lafur, a chyn ei diwedd fe'i dewiswyd yn ysgrifennydd ariannol.

Ef, fel ysgrifennydd, a D. R. Daniel, Fourcrosses, fel trefnydd, fu wrth lyw'r Undeb yn un o amserau mwyaf dyrys ei hanes. Ar eu hysgwyddau hwy y bu'r cyfrifoldeb o'i arwain yn ei frwydr chwerwaf, a'r gwaith o'i hwylio drwy un o'r cyfnodau mwyaf digalon yn hanes y diwydiant. Y gamp ar lawer ystyr oedd cadw'r ffydd mewn undeb yn fyw o gwbl, ac un praw ddarfod iddynt lwyddo ydyw amharoddrwydd y pwyllgor hwnnw yn 1907 i gymryd, yr ysgrifennydd ariannol ar ei air. Goheriwyd dod i farn ynglyn â'i ymddiswyddiad ddwywaith, ac yn y diwedd fe'i perswadwyd i aros hyd Fehefin, 1908. Yn Ionawr amlygodd ei deimladau drachefn, a bu raid i'r pwyllgor feddwl o ddifrif am olynydd iddo. Anfonwyd i'r cyfrinfaoedd, gan alw arnynt enwi gwyr cymwys i'r swydd. Cafwyd yr enwau, ac yn ystod Mai a Mehefin pleidleisiodd yr aelodau ar dri ohonynt. Yn y bleidlais derfynol etholwyd R. T. Jones, Ffestiniog, a dechreuodd yntau ar ei waith ar y cyntaf o Awst, 1908.

Cytunodd W. H. Williams i aros am flwyddyn arall i gyfarwyddo yr ysgrifennydd newydd wrth raid. Erbyn hynny fe ymadawsai D. R. Daniel, ac yn wyneb sefyllfa'r Undeb ar y pryd barnwyd mai doeth fyddai cyflogi un swyddog yn unig. Yng Nghyngor Cyffredinol Ebrill, 1909, dewiswyd R. T. Jones yn ysgrifennydd cyffredinol i'r Undeb, a chydysniodd W. H. Williams i weithredu fel trysorydd. Yn y Gynhadledd y mis dilynol, cadarnhawyd y trefniant hwn.

II.

Y Dirwasgiad.—Dywedwyd mai cyfnod digalon iawn yn hanes y diwydiant lechi ydoedd blynyddoedd olaf swyddog aeth W. H. Williams; rhaid manylu peth ar hyn os am ddeall yn iawn amgylchiadau yr Undeb cyn y rhyfel. Yn 1902 dechreuodd dirwasgiad yn y fasnach adeiladu trwy'r wlad; fe barhaodd am ddeng mlynedd, ac ni adfywiodd yn hollol cyn y rhyfel, oherwydd fe lesteiriwyd yr adfywiad a ymddanghosodd yn 1912 gan y cloi allan a gymerodd le ym myd yr adeiladwyr yn ystod chwe mis cyntaf 1914, pryd yr oedd o 30 i 40 mil o weithwyr yn segur. Erbyn diwedd 1903 yr oedd effaith y dirwasgiad ddechreuodd yn 1902 i'w weld yn y diwydiant lechi, a phe astudid ffigyrau cynnyrch chwarelau Arfon a Meirion fe welid bod y cynnyrch o lechi wedi gostwng yn gyson o ran ei swm a'i werth am bum mlynedd, o 1905 hyd 1909; bu peth adfywiad yn ystod 1910, ac yna bu gostwng drachefn hyd 1914.

Dyma'r dirwasgiad mwyaf yn hanes y diwydiant mewn amser diweddar, a bu iddo ei effeithiau naturiol ymhlith y chwarelwyr. Mae'n debyg na fu cyflogau pob dosbarth o weithwyr yn y chwareli cyn ised â'r cyfartaledd rhwng 1905 a 1912 ers 1872. Gweithiwyd yspeidiau o amser byr ym mhob chwarel yn ei thro, a bu un neu ddwy yn sefyll. Fel y digwydd bob amser pan fo dirwasgiad, mudai y chwarelwyr yn llu i ddiwydiannau eraill, ac ni ddychwelodd llawer ohonynt pan ddaeth tro ar fyd ar ol y

rhyfel. Cwynai cynrychiolwyr Dyffryn Nantlle a Ffestiniog yn dost oherwydd bod "blodau'r ardal," chwedl hwythau. yn ymadael, ac yr oedd ganddynt le i gwyno pan gofir fod nifer y gweithwyr yn chwareli Ffestiniog wedi lleihau 28 y cant rhwng 1906 a 1913, ac yn Nyffryn Nantlle 38 y cant. Am y rhai a ddewisasant aros gartref, yr oedd yn rhaid iddynt wneud y gorau o delerau "gosod" oedd yn gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn, a hynny heb nag isrif na safon cyflog. Ysid cysylltiadau meistr a gwas yn y diwydiant gau anesmwythyd; yn ystod 1905 bu streic yn y Glyn Isaf, yn Norothea, Talysarn, as Alexandra, ac yn 1906 bu gweithwyr Moeltryfan allan am dri mis.

A chofio'r amgylchiadau hyn, ni raid rhyfeddu o gwbl i aelodaeth yr Undeb ddioddef. O 6,700 yn 1902 disgynodd i ychydig gyda 1,200 yn 1905. Yn ei holl hanes troiog ni bu ond unwaith—yn 1899—cyn ised a hyn. Yn 1905 dau gant o Undebwyr oedd yn Nyffryn Nantlle, a chant a banner yn Ffestiniog; yn Ninorwig yn 1907 bu cyn lleied a 67 yn talu, a rhyw gant ym Methesda. Fel y dywedodd cynrychiolydd Glyn Isaf, mewn Cyngor Cyffredinol y flwyddyn honno,—*"Dyma rigol isaf Undebiaeth."*

CYNNYDD MEWN ADFYD

I.

Yr Adfyd.—Clywir dywedyd yn fynych mai adfyd yw'r ysgol orau; os gwir hyn bu yr ysgrifennydd newydd mewn ysgol dda yn ystod blynyddoedd cyntaf ei oruchwyliaeth. Ar y trothwy—yn Awst, 1908—bu raid iddo wynebu streic yn y Glyn Uchaf oherwydd gostwng prisiau cerrig a rwbel, a thrwy dderbyn gostyngiad yn dawel yr osgowyd peth cyffelyb yn Norothea. Ym mis Medi bu gostyngiad yn y Llechwedd, a chyn diwedd y flwyddyn ataliwyd y gwaith yng Nghoed Fadog. Ganol haf 1909 ataliwyd y gweithwyr yn y Braich ar hanner y gosodiad; mewn cryn anfodlonrwydd "cymerwyd" ar delerau newydd, a chyn diwedd y flwyddyn bu raid i'r swyddogion dalu ymweliad â'r chwarel. Bu ataliad yno drachefn yn Ebrill, 1910, ac am yr un rheswm, a'r tro hwn ataliwyd budd cloi allan i nifer o'r dynion. Nid cynt y darfu'r anghydwelediad yn y Braich nag y galwyd yr ysgrifennydd i setio anghydfod yn Alexandra, a chyn diwedd 1910 yn Norothea a Thalysarn.

Yn ystod 1911 cafwyd egwyl fer, ac yn wyneb yr adferiad byr hoedlog yn y ddiwydiant, lleddfwyd rhyw gymaint ar yr anniddigrwydd. Cyn diwedd y flwyddyn, fodd bynnag, dechreuodd gweithwyr Dinorwig anesmwytho. Cwynent oherwydd y dull a gymerid i dalu yr ychwanegiad cyflog addawedig iddynt gan y perchennog, ac oherwydd bod rhai yn gorfod mynd adref ar Sadwrn y tâl pythefnosol heb yr un geiniog, ac eraill gydag ychydig iawn. Yn ystod 1912 bu nifer o fân anghydwelediadau yn Nyffryn Nantlle a'r cyffiniau eto. Bu amryw achosion o dorri gosodiad yn Nhalysarn, a chyn diwedd y flwyddyn yr oedd criw y "Piler Mawr" yno allan. Bu ataliad ym Mhenyrsedd, a helynt yn y Cilgwyn. Yn ystod y flwyddyn aeth telerau gweithio yn waethwaeth yn gyffredinol, ond yn arbennig yn nosbarth Nantlle; cwynid yn Norothea, Alexandra, a Moeltryfan, a daethpwyd i deimlo na ellid goddef gostyngiadau lawer yn hwy. Yn Nechreu 1913 fe gadwyd cyfrif manwl o'r enillion yn Alexandra a Moeltryfan, a gwelwyd eu bod yn druenus o isel. Penderfynwyd symud ymlaen am well telerau, a bu y drafodaeth yn llusgo ymlaen yn ystod y flwyddyn. Sicrhawyd dealltwriaeth gyda pherchenogion Moeltryfan, ond yn Alexandra daeth pethau i bwynt ym mis Hydref pan y rhoddwyd gosodiad eithriadol o galed i'r dynion. Er ei ddryced rhoddwyd cynnig arno, a phan fethwyd darbwylllo y perchennog galwyd y gweithwyr allan. Dyma anghydfod mwyaf y blynyddoedd anesmwyth hyn, ac ynddo dycpwyd yr anesmwythyd a ffynai ers amser yn y chwareli a reolid gan A. W. Kay Menzies, Caernarfon, i bwynt. Buwyd heb weithio hyd Ebrill, 1914, a phan ail ymaflwyd yn yr arfau fe enillasai'r gweithwyr fanteision sylweddol. Byr, fodd bynnag, fu oes yr amodau newydd; ym Mehefin dechreuwyd gweithio pedwar diwrnod yno, ac yng Ngorffennaf cauwyd y chwarel.

II.

Atdrefnu y Peiriant.—Gwelir mai yn chwareli cylch Nantlle yr esgorodd y dirwasgiad ar anghydfod fynychaf, ac amgylchiadau hanfodol y diwydiant yn y cylch hwnnw sydd yn cyfrif am hynny. Nid oedd yr un o'r anghydwelediadau yn ddigon mawr i effeithio ar gwrs y fasnach yn gyffredinol, fel y digwyddodd yn helyntion y Penrhyn, ond i'r Undeb, fel cyfrwng amddiffyn i lafur yn y ddiwydiant, deilliodd lles ohonynt. Dadlenasant yn effeithiol iawn wendid ei beirianwaith, a rhoddasant bwyslais ar y llinellau hynny mewn polisi a fyddai'n debyg, pes dilynid, o ennill sicrwydd cyflog i'r gweithiwr a threfn yn y grefft. Wrth edrych ar bethau o'r safbwynt yma yn unig y

sylweddolir y ffaith mai ym mlynnyddoedd yr adfyd cyn y rhyfel y gosodwyd i lawr sylfeini hawddfyd ac awdurdod y blynnyddoedd ar ôl y rhyfel.

Yn 1908 rheolid gweithrediadau a gwasanaeth yr Undeb gan reolau a luniesid yn 1906, a phrif nodwedd y rheiny oedd y mesur helaeth o ymreolaeth ganateid i'r cyfrinfaoedd drwyddynt. Y mae rhyddid fel hyn yn burion efallai pan y mae Undeb yn weddol berffaith o ran rhif ei aelodaeth ac ymwybod byw o ddyletswyddau yn ffynnu ymhlith yr aelodau; heb hynny rhywbeth amheus ydyw, ac yn y blynnyddoedd hynny, pan yr oedd yr Undebwyr yn y lleiafrif ymhob chwarel bron, yr oedd yn ddull anfoddhaol iawn o lywodraethu. Esgorai ar ddau beth, sef diffyg disgyblaeth ymhlith yr aelodau, a dehongliadau lleol anghywir o hawliau yr aelodau yn ol y rheolau cyffredinol. Gellid lliosogi enghreifftiau i brofi bod y drygau yma yn ffaith yn hanes gweithrediadau yr Undeb cyn 1914. Er enghraifft, bu yn gryn afael rhwng Undebwyr Coed Madog a'r Pwyllgor Gweithiol yn 1908 ar gwestiwn talu budd; yr un modd yn y Braich yn 1909 a 1910, yn Norothea a Thalysarn yn 1910, ac yn Nhalysarn eto yn 1912. Gwneid y drwg yn waeth gan bolisi oedd yn boblogaidd ymhlith Undebwyr yr amser honno, sef nad oeddynt i gymryd rhan o gwbl mewn cyfathrach rhwng corff y gweithwyr a'r meistr pan fyddent yn y lleiafrif mewn chwarel. Beth bynnag oedd gwerth y bolisi yn gyffredinol, nid oedd yn hawdd ei chario allan bob amser, a mwy anodd na hynny i bwyllgor oedd penderfynu a gariwyd allan y goddefgarwch hwn mewn ymrafael.

I raddau, mater o yspryd—yspryd trefn—ydyw diwygio cyflwr fel hyn, ac nid yw yn hawdd mesur hwnnw fesul penderfyniadau. Tueddai cynnydd aelodaeth ynddo'i hun i ddwyn diwygiad i'w ganlyn, ond pan ychwanegid ato ganoli awdurdod hefyd, creid awyrgylch newydd. Ar hyd y llinell yma o ganoli'r awdurdod, yn bennaf, y gwnaed cyfnewidiad graddol er gwell yn y peiriant. Yn niwedd 1908 adolygwyd y rheolau, ac yn 1909 pasiwyd gwelliannau terfynol arnynt. Amlygwyd yn fuan y bwriadai'r oruchwyliaeth newydd gadw yn dynn atynt; yn ystod 1910 anogwyd yr aelodau i fod yn rheolaidd yn eu taliadau, ac yn helynt y Braich y flwyddyn honno gwybu rhaid o'r aelodau beth oedd y gosp am esgeulustod. Yno hawliai 20 o'r aelodau fudd cloi allan; yr oedd 12 ohonynt mewn dyled, 3 wedi cymryd rhan yn yr anghydfod, ac i 14 yn unig y talwyd. Mewn amryw o fan achosion o dro i dro fe ddigwyddodd yr un peth, ac yn raddol daethpwyd i adnabod yr yspryd newydd ac i'w gydnabod.

Yn 1911 dechreuwyd tynhau o gyfeiriad arall. Y cam cyntaf oedd galw am gyfrif ariannol o'r cyfrinfaoedd yn fisol, yn lle yn chwarterol fel cynt, ac awgrymwyd i'r ysgrifenyddion lleol gyfarfod yn achlysurol yn y swyddfa i drafod gwahanol faterion. Yn 1912 bu holl gwestiwn cysylltiad y cyfrinfaoedd â'r swyddfa dan ystyriaeth, ynghyd a'r posibilrwydd o leihau eu nifer. Mewn canlyniad pasiwyd bod rhestrau aelodaeth o hyn allan i'w cadw yn y swyddfa, a bod y llyfrau casglu i ddod i law yn fisol. Ni fedrai y cyfrinfaoedd ddygydd yn rhwydd â hyn. ac yn wyneb y teimlad hwn bodlonwyd ar i'r rhestrau yn unig ddod i law yn fisol. Yng nghynhadledd 1913 pasiwyd bod holl dreuliau y cyfrinfaoedd i'w talu o'r gronfa gyffredinol, ac yn unol a hyn galwyd i mewn holl arian y cyfrinfaoedd oddigerth y cronlfeydd claf-dal. Erbyn hyn fe gynyddasai gwaith yr Undeb, ac fel cam pellach i gyfeiriad effeithiolrwydd yr oedd ym mryd yr Undeb i gael is-swyyddfeydd yn y pedwar canolfan, pan y torrodd y rhyfel allan.

III.

Cynnydd Swyddogaeth.—Ar wahan i ofynion effeithiolrwydd yn ei gylch priod ei hun, yr oedd datblygiadau eangach o gyfeiriad deddfau gwlad a datblygiadau yn dal perthynas a holl safle llafur mewn diwydiant yn galw am farn glir a chydweithrediad effro ar ran y chwarelwyr. Yn 1906 fe ddiwygiwyd Deddf lawn 1897, i gynnwys iawn am afiechyd yn ogystal ag am ddamwain mewn diwydiant, ac yn ystod Rhagfyr, 1908, fe wnaed ymdrech egniol i ddwyn chwarelyddiaeth o fewn cylch y ddeddf. Yn 1909 tynnwyd sylw yr Ysgrifennydd Cartrefol at y mynych ddamweiniau a oedd yn digwydd yn y chwareli, gan bwysleisio yr angen am arolygiaeth fwy effeithiol. Yn 1910 penodwyd yr ysgrifennydd yn aelod o'r Comisiwn i edrych i mewn i gwestiwn ieched yn y chwareli a'r mwngloddiau, a chyflwynwyd tystiolaeth fanwl ar ran y chwarelwyr. Y flwyddyn honno hefyd y cwynwyd wrth swyddogion y Llywodraeth bod y cyflogvyr yn elwa ar werthu ffrwydron i'w gweithwyr, a thrwy hynny yn osgoi Deddf Tryc; meddylwyd unwaith gyflwyno Mesur i'r Senedd er diwygio y ddeddf a dileu'r drwg.

Ond ynglyn â Deddf Yswiriant 1911 y bu'r ymagnio mwyaf yn y cyfeiriad hwn. Am ddwy flynedd cyn pasio y ddeddf buwyd yn trafod pob agwedd arni, ac yng Nghynhadledd 1910 amlygwyd barn yr Undeb o blaid egwyddor y Mesur. Ystyrid yr Undeb yn "gymdeithas gymwys" yn ol y ddeddf, a threfnwyd cynllun o glaf-dal a budd diffyg gwaith i chwarelwyr y gellid ei weinyddu drwyddo, ond oherwydd yr amgylchiadau bu raid ei ohirio. Fel cynrychiolydd yr Undeb eisteddodd yr

ysgrifennydd ar Fwrdd Cyngoriadol dros y deyrnas ynglyn â'r Mesur, ac ar fwrdd cyffelyb dros Gymru. I sicrhau holl fanteision y Mesur i gylch y chwareli pwyswyd ar y Llywodraeth i sefydlu Swyddfa Lafur yn Ffestiniog ac yng Nghaernarfon.

AMCANION NEWYDD.

I.

Y Siarter.—Prin iawn y rhaid dwyn i gof unrhyw chwarelwr, sydd wedi treulio erbyn heddiw ugain mlynedd wrth ei grefft, am amodau ac amgylchiadau ei gyflogiad pan aeth gyntaf i'r chwarel. Fe gofia yn dda am ei ddyddiau rybela a'r hap a damwain fu iddo ynglyn â dysgu ei grefft. Fe gofia hefyd am ansicrwydd ei enillion ar ol ei dysgu, eu prinder yn fynych, a'r anhwylost oedd bron yn gamwri yn y dull o'u talu. Yr oedd cyflogau at drugaredd y fargen a phris y gosodwr, a gwybu, llawer un fynd adref wedi treulio mis o'i lafur yn gwbl ofer bron. Nid effaith dirwasgiad yn unig mo hyn; yn hytrach effaith drwg dyfnach oedd yn hanfodol yn safle'r gweithiwr yn y diwydiant. Gallai'r dirwasgiad yn eithaf naturiol beri i'r cyflog fod yn fychan, ond diffyg sicrwydd am gyflog o gwbl oedd yn peri ei fod weithiau'n ddim. Y dirwasgiad hefyd a lywodraethai bris y gosodwr, ond diffyg safon gosod rhesymol,—safon a roddai gyfle i weithiwr ennill atdaliad am ei lafur,—a barai iddo yn aml wario'r llafur hwnnw yn ofer. A chyn y gellid ennill i lafur yn y ddiwydiant siawns am chwarae teg, boed amser o hawddfryd neu amser o adfyd, yr oedd yn rhaid symud y diffygion hyn.

Mor gynnar â mis Rhagfyr, 1908, bu y Pwyllgor Gweithiol yn trafod y priodoldeb o wneud cais am dâl wythnosol ymhob chwarel yr oedd yr Undebwyr yn y mwyafrif ynddi. Daeth ymlaen drachefn yng Nghynhadledd 1909 a 1910, ac yng Ngyngor Cyffredinol Ionawr, 1911 cyplyswyd ef a chwestiwn isrif cyflog, a buwyd yn trafod y moddion gorau i sicrhau y ddau. Yr oedd y Cyngor i gyd o blaid egwyddor y peth, ac yn ystod yr wythnosau dilynol bu yr ysgrifennydd yn brysur yn tynnu allan gynllun eang mewn perthynas i hyn, a chysylltodd gwestiwn oriau a phrentisiaeth ag ef yn ogystal. Ym mis Mai bu y Pwyllgor Gweithiol wrth ben y cynllun; gwelwyd ei fod yn ymgorfforiad o brif anghenion y chwarelwyr ac yn nod i'r Undeb geisio y gyrraedd ato. Yn briodol iawn galwyd y cynllun yn "Starter"; fe'i hargraffiwyd, a chafwyd trafodaeth fanwl arni yng Nghyngor Cyffredinol Gorffennaf. Wedi corffori rhai gwelliannau ynddi fe'i hanfonwyd i'r aelodau, a'r "Siarter" fu maes trafod y cyfrinaoedd yn ystod y gaeaf. Awgrymwyd rhai gwelliannau ychwanegol arni ganddynt hwy, a phan gorfforwyd y rhain ynddi yng Nghyngor Cyffredinol Ionawr, 1912, yr oedd bellach yn ei ffurf derfynol.

Yng Nghynhadledd y flwyddyn honno mabwysiadwyd y Siarter fel nod yr Undeb mewn cyflogiad teg.

Un peth oedd tynnu allan Siarter, ond mater arall oedd darbwylllo'r cyflogwyr, a chyflwr y diwydiant yr hyn ydoedd, i'w derbyn fel telerau i'r gweithwyr. Bu cyfnewidiad er gwell yn y dull o dalu ymhob chwarel bron erbyn 1914, ac yn hynny o beth fe sicrhawyd un nod o eiddo yr Undeb. Ni chollwyd un cyfle chwaith i ddwyn y Siarter i sylw y cyflogwyr. Yn 1912 cyflwynwyd hi'n ffurfiol i gymdeithas perchenogion cylch Ffestiniog a pherchenogion Moeltryfan, gyda chais am gyfarfod i geisio tynnu allan delerau cyflogiad ar linellau cynelyb iddi. Atebiad anffafriol a dderbyniwyd o'r dda le, a nodid sefyllfa isel y fasnach fel y rheswm dros wrthod. Sylweddolwyd y byddai'n rhaid aros am hindda yn y ddiwydiant cyn yr enillid gofynion eithaf y Siarter.

Yn wyneb methiant ymdrechion uniongyrchol fe geisiwyd lleddfu ychydig ar amgylchiadau adfydus y gweithwyr yn anuniongyrchol. Yn 1913, mewn cydweithrediad ag aelodau Seneddol y ddwy sir, lluniwyd Bil Isrif Cyflog, i'w gynnig i Dy'r Cyffredin. Cyflwynwyd y Bil i'r Ty, ond araf iawn y try melin y Llywodraeth, a hir

yw pob aros. Aed i feddwl bod posibilrwydd cael ymwared mewn deddf a basiwyd yn 1909 ar gyfer pennu cyflogau mewn "Sweated Industries," sef y "Trade Boards Act." Trwy gydol haf 1914 buwyd yn trafod y sut a'r modd y gellid ystyried chwarelyddiaeth o fewn cylch ei gweithrediad, ond ni lwyddwyd. Pan dorrodd y rhyfel allan, y Siarter yn unig oedd yn aros i chwarelwyr fel eu gobaith am well amodau.

II.

Cysylltiadau Undebol Newydd.— Yn ystod helynt olaf y Penrhyn bu cyfathrach nês rhwng Undeb y Chwarelwyr â chorff Undebaeth Llafur y wlad nag a fu erioed cyn hynny. Yn y blynyddoedd dilynol parhaodd y cysylltiad mewn ystyr swyddogol, ond y mae lle i amau mai fel mater o sentiment y cedwid ef mewn bod, ac nid oherwydd ymdeimlad byw o amcan a gwerth y cysylltiad.

Telid ffi blynyddol i Gyngres yr Undebau, ac yn rhinwedd hyn cyfrannai yr Undeb gynorthwy o dro i dro i undebau eraill a ddigwyddai fod mewn trybini ar hyd a lled y wlad.

Un o arwyddion cynnydd y blynyddoedd cyn y rhyfel ydyw ddarfod i ystyr ddod i'r cysylltiad unwaith eto. Fel y sylweddolid fwyfwy y byddai yn rhaid wrth symudiad pendant i sicrhau hawliau llafur yn y diwydiant, fel sylweddolid hefyd mai un amod llwyddiant yn yr ymdrech fyddai bodolaeth dolennau cryfion rhwng yr Undeb â chorff undebau y deyrnas, ac ym arbennig yr undebau a gyffyrddent yn rhywle â diwydiant y chwareli. Wedi llunio y Siarter yn 1912 y bu'r gogwydd sylweddol cyntaf tuagat saernio'r dolennau hyn. Yn Rhagfyr y flwyddyn honno awdurdodwyd yr ysgrifennydd i geisio cael copi o gynllun Cyngres yr Undebau i ffurfio cronfa ganolog i undebau'r fasnach adeiladu; ac ymhellach i ymholli âg Undeb y Gweithwyr Setts ac Undeb Cenedlaethol y Chwarelwyr ynghylch y priodoldeb a'r posibilrwydd o ffurfio Cyngres o bob undeb chwarelyddol trwy'r deyrnas. Yn ystod 1913 buwyd yn gohebu i'r perwyl yma, ac ym mis Awst cafwyd cyfarfod o gynrychiolwyr y tri Undeb yn Swyddfa Undeb y Chwarelwyr. Ni wnaethpwyd dim pellach ar y pryd, ond dengys yr ymgais i ba gyfeiriad yr oedd syniadau yn cerdded.

III.

Y Wleidyddiaeth Newydd.—Hanfod hanes gwleidyddiaeth y deugain mlynedd diwethaf ydyw y newid cyfeiriad a gymerodd le mewn Radicaliaeth gwleidyddol i gyfarfod âg amgylchiadau newydd a phroblemau newydd. O ran ei hanfod yr oedd Undebaeth Lafur y ganrif ddiwethaf yn arloesydd da i hyn, a phan luniwyd y Blaid Lafur i gorffori y syniadau Radicalaidd newydd nid oedd ond mater o amser i Undebaeth Lafur ymbriodi â hi.

Mor fore a 1903 a 1904 yr oedd lefain syniadau gwleidyddol newydd yn amlwg yng nghyfrinfa Glyn Uchaf, canys oddiyno y daeth penderfyniadau yn galw ar i'r Undeb fynnu cynrychiolaeth uniongyrchol yn y Senedd. Pasiwyd y penderfyniad yn y ddwy gynhadledd, ac yn rhesymol, ar ol ei basio, bu y pwyllgor gweithiol yn trafod y cwestiwn o enwi ymgeisydd am sedd wag Eifion yn Ebrill, 1906. Yr oedd Nantlle yn selog dros enwi y Trefnydd i'w hymnadd, ond pasiwyd i beidio y tro hwnnw. Yng Nghynhadledd 1906 pasiwyd yr un penderfyniad eto, a daeth yn bolisi gan y pwyllgor gweithiol yn fwy neu lai i annog yr aelodau i gefnogi ymgeiswyr Llafur yn yr etholiadau lleol.

Erbyn 1908 yr oedd cynnydd syniadau y Blaid Lafur Annibynol yn berffaith amlwg yn yr ardaloedd, yn arbennig yn Nantlle a Ffestiniog, a chyn diwedd y flwyddyn lluniodd y Pwyllgor Gweithiol benderfyniad o blaid cymryd safle bendant ac annibynol mewn materion gwleidyddol, ac anfonwyd ef i'r cyfrinfaoedd i'w drafod. Yn 1910—yn y Gynhadledd—daeth y cwestiwn clir o ymuno â'r Blaid Lafur i bleidlais bendant, ac yr oedd mwyafrif o 9 yn erbyn. Collwyd penderfyniad cyffelyb yn 1911, a phan gynhygiwyd yng Nghynhadledd 1912 fod pleidlais o'r aelodau i'w chymryd ar y cwestiwn fe gollwyd hwnnw drachefn.

Ond cyn diwedd y flwyddyn trawyd y cyswllt swyddogol cyntaf rhwng yr Undeb a'r blaid. Bu tri yn cynrychioli y Pwyllgor Gweithiol mewn cynhadledd a gynhaliwyd ar Rhagfyr 14eg, 1912, i'r amcan o ffurfio Cyngor Llafur dros Sir Gaernarfon, ac yn Chwefror, 1913, pasiwyd i ymuno yn ffurfiol a'r Cyngor newydd; fe dalwyd cyfraniad i'r Cyngor dros yr aelodau, a chymerodd yr Undeb ran amlwg yn y gwaith o dynnu allan ei reolau. Yng Nghynhadledd 1913 yr oedd penderfyniad o eiddo y Pwyllgor Gweithiol o blaid cynrychiolaeth uniongyrchol, yn Seneddol ac ar Gynghorau lleol, ar y rhaglen, ac fe'i pasiwyd yn unfrydol. Yr un amser agorwyd y ffordd i gyrraedd yr amcanion gwleidyddol newydd gan Ddeddf Undebau Llafur 1913—deddf a'i gwna'n gyfreithlon i Undebau Llafur ddefnyddio arian i sicrhau amcanion gwleidyddol. Yn ol y ddeddf yr oedd yn rhaid cael barn yr Undebwyr trwy falot ar gwestiwn ffurfio cronfa wleidyddol, ac yn 1914 cymerwyd llais y chwarelwyr; cafwyd mwyafrif o 1,779 o blaid.

IV.

Y Mudiad Newydd mewn Addysg.—Anhepgor ymwybod byw o ddyletswydd mewn cysylltiadau gwaith, dinasyddaeth, a gwleidyddiaeth ydyw barn olau, ac ar wybodaeth eang a diragfarn y mae seilio honno. Un datblygiad tarawiadol ym myd addysg heddiw ydyw cynnydd cyfryngau newydd o ddiwylliant ar gyfer oedolion, cyfryngau sydd a'u pwrpas i feithrin yr ymwybod yma. Era y rhyfel y mae'r cyfryngau hyn yn nodwedd amlwg o fywyd y mwyafrif o ardaloedd chwarelyddol, ond fe gychwynasid y mudiad **cyn** y rhyfel, ac yn hanes y cychwyn hwnnw y mae i Undeb y Chwarelwyr le anrhydeddus.

Ers rhai blynyddoedd cyn 1908 tanysgrifiai yr Undeb i Goleg Ruskin yn Rhydychen bob blwyddyn, ac o dro i dro argraffai rai o'r prif anerchiadau a draddodid yn uchel wyliau Llafur. Ond yn 1909 y cymerwyd y cam pendant cyntaf i agor y drws i'r mudiad newydd. Ym mis Mai y flwyddyn honno estynodd y Pwyllgor Gweithiol wahoddiad i'r Dr Thomas Jones—sydd heddiw yn Ysgrifennydd y Cyfrin Gyngor, ond a oedd ar y pryd yn athro ym Mhrifysgol Glasgow,—i draddodi nifer o ddarlithoedd yn y canolfannau chwarelyddol, a bwriedid cyhoeddi'r darlithoedd wedi hynny yn gyfrol. Oherwydd ei symud i Belfast, methodd yr athro a dod, ac yn niffyg hynny anfonwyd cais i Goleg y Brifysgol ym Mangor am rywun oddiyno i roi cwrs cyffelyb; ond aethai yn rhy hwyr erbyn hyn i drefnu dim ar gyfair y gaeaf hwnnw. Er hynny nid aeth y gaeaf hwnnw'n ofer; gwnaeth yr Undeb ei orau i sicrhau tanysgrifwyr o blith yr aelodau i lyfr Mr David Thomas—"Y Werin a'i Theyrnas," a threfnwyd arholiad i'r aelodau ar bamffled a gyhoeddaisid gan yr Undeb, yn cynnwys anerchiad o eiddo Philip Snowden a Dr Thomas Jones. Yn ystod 1910 gofaliwyd bod yn brydlon ynglyn â sicrhau darlithoedd neu ddosbarthiadau. Fe ddechreuasai y Brifysgol symud yn y mater, ac ym Mehefin nodwyd yr ysgrifennydd i gynrychioli yr Undeb ar bwylgor a sefydlaisid i

gychwyn y gwaith. Araf yr elai pethau ymlaen fodd bynnag, a cheisiodd yr ysgrifennydd gael gan Gyngor Addysg Arfon i sefydlu rhai dosbarthiadau. Aethai yn fis Tachwedd erbyn hyn, a phan oedd bron yn rhy hwyr fe lwyddwyd, mewn canlyniad i ymweliad dirprwyaeth o Goleg Bangor â Swyddfa'r Undeb, i gychwyn dosbarth yn Ffestiniog.

Ymgwymerodd y Coleg â sicrhau athro a thalu cyflog iddo, ac ymgwymerodd y gyfrinfa leol â thalu ei dreuliau llety. Dewiswyd Mr J. F. Rees,—sydd erbyn hyn yn brifathro Coleg Caerdydd—yn athro. Dyma'r dosbarth cyntaf a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru dan nawdd Coleg Bangor, ac o hynny allan ni bu yr Undeb yn brin o helaethu'r cyfle i'r Coleg estyn ei gortynnau i blith y chwarelwyr. Bu'r ysgrifennydd yn aelod o bwyllgor arbennig y Brifysgol, a gynhaliwyd yn y Mwythig ym Mai, 1911, a threfnwyd bod pedwar dosbarth—yn Ffestiniog, Penygroes, Llanberis, a Bethesda—i'w cynnal yn ystod y gaeaf dilynol. Dewiswyd yr Athro Robert Richards i ofalu am danynt, a chyfranodd yr Undeb £50 y flwyddyn tuagat eu dwyn ymlaen. Yn 1911 hefyd cynhaliwyd arholiad arall ynglyn â'r Wyl Lafur, a'r maes y tro hwn oedd "Y Werin a'i Theyrnas." Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, oherwydd amgylchiadau anorfod, methodd yr Undeb a'r Coleg ychwanegu at nifer y dosbarthiadau. Ond yn 1913 estynwyd cyfle i'r aelodau ymgeisio am ysgoloriaeth a olygai gwrs o addysg yng Ngholeg Ruskin. Bu raid cynnal arholiad lleol i ddewis yr un gorau ohonynt i sefyll yr arholiad cenedlaethol am yr ysgoloriaeth. R. W. Williams, o ddosbarth Penygroes, enillodd yr hawl i sefyll, a llwyddodd hefyd i ennill ysgoloriaeth; wedi blwyddyn yng Ngholeg Ruskin, fe lwyddodd i ennill ysgoloriaeth arall yng Ngholeg Fircroft, Birmingham.

Trwy gadw mewn cof o hyd amgylchiadau y diwydiant yn ystod y blynyddoedd hyn, yn unig y gellir gwerthfawrogi cyflawniadau yr Undeb am y chwe blynedd cyn y rhyfel. Torrodd allan iddo'i hun lwybrau newydd ar gyfair y dyfodol, ac ar un olwg nid yw ei holl hanes ar ol hyn namyn hanes ei gerdded yn hyf ar hyd y llwybrau hyn. Fe'i perffeithiodd ei hun hefyd fel cyfrwng i ddatgan barn a llais llafur yn y diwydiant, a ffurfiwyd y farn honno yn rhesymol a phendant; yr oedd digwyddiadau i gymryd lle yn y dyfodol agos a barent bod sicrhau hyn yn amod hanfodol unrhyw gynnydd pellach.

Ni raid wrth amgenach praw o'r cynnydd na'r ffaith bod digon o hyder yn effeithiolrwydd yr Undeb wedi ei ennyn erbyn haf 1914 i'r pwyllgor gweithiol allu gwneud cais ffurfiol at nifer o'r perchenogion am i'r Undeb gael ei gydnabod fel organ swyddogol y gweithwyr ymhob trafodaeth ynglyn a'r diwydiant, ac ym Medi enillwyd y gydnabyddiaeth honno yn yr Oakeleys. Ail adferwyd y ffydd mewn Undeb, a rhwng 1910 a 1914 cynhyddodd yr aelodaeth yn gyson o 2,100 i dros 4,800. Cyfrinach y cynnydd ond odid ydoedd, bod "Rhai yn dod yn ddistaw, o argyhoeddiad," chwedl cynrychiolydd Waenfawr.

YR UNDEB A'R RHYFEL.

I.

Y Ddiwydiant.—Pan dorrodd y rhyfel allan troes y dirwasgiad yn y diwydiant llechi yn barlystod hollol. Yn y sioc a roed i ddiwydiannau yn gyffredinol bu terfyn llwyr "bron ar adeiladu yn y wlad hon, ac yn y sioc a roed i gyfathrach gydwladol diflannodd yr ychydig farchnadoedd tramor. Hyd ddechreu 1916 fe ffynai'r gobaith y daliai y diwydiant ei dir, er ar gylch tipyn yn llai; ond o hynny ymlaen sylweddolwyd y byddai y galw digyffelyb am ddynion ac am gad-ddarpar yn gosod y diwydiant ar dir bodoli yn unig. Hanes diwydiant mewn penbleth eithriadol i ddechreu, ac yna yn prin fodoli, ydyw hanes diwydiant y chwareli yn ystod y rhyfel.

Gwybu'r chwarelwyr fod rhyfel yn bod yn sydyn iawn. Cyn pen mis wedi ei gyhoeddi yr oedd rhai chwareli ar sefyll, a'r rhelyw i gyd bron ar amser byr. Cyn diwedd Medi yr oedd 1,170 allan o waith yn Nyffryn Nantlle yn unig, 673 ohonynt yn Undebwyr, ac mewn pwyllgor gweithiol a gynhaliwyd ar y 26 o Fedi hysbyswyd bod o leiaf 380 o'r aelodau wedi ymadael am alwedigaethau eraill. Yn y cyfwng hwnnw nid oedd ffynonellau newydd o waith ar raddfa eang wedi eu hagog, ac oherwydd hyn, ynghyda'r amser byr a'r drudaniaeth bwyd oedd i'w deimlo'n barod, amser tywyll oedd gaeaf 1914. Sefydlwyd pwyllgorau angen yn y gwahanol ranbarthau, a thrwy gymorth o wahanol gronfeydd lleddfwyd ychydig ar y dioddef. Erbyn diwedd 1915 fe ymunasai tua 400 o Undebwyr a'r fyddin, a phan basiwyd gorfodaeth milwrol yn 1916 cynyddodd y nifer i 650 neu fwy. Yn nechreu 1917, yn wyneb y galw mawr am lafur i'r diwydiannau anhepgor, rhoddwyd diwydiant y chwareli ar restr y rhai y gellid eu hepgor, a dechreuodd y canol oed ymadael. Ar ddiwedd y rhyfel nid oedd ond prin un ran o dair o'r gweithwyr yn aros yn y chwareli.

II.

Gofynion Gwlad.—Rhoddodd y rhyfel grogbris ar lafur dynol yn anad unpeth arall, ac yn amgylchiadau'r rhyfel daeth llafur fel elfen hanfodol mewn diwydiant i'w etifeddiaeth. Yn sgil hynny, ac fel organ llafur, enillodd undebau llafur trwy y deyrnas bwysigrwydd newydd. Rhag afradu dim adnoddau cyhoeddwyd heddwch rhwng cyfalaf a llafur mewn diwydiant, ac er mwyn trefnu adnoddau dynol y wlad cydweithiai'r undebau â'r Llywodraeth. Gosodai hyn waith dyblyg ar eu hysgwyddau, sef gofynion y cydweithredu hwn ac hefyd gario allan eu gwaith cynhenid eu hunain o sicrhau'r gorau i'w haelodau ymhob peth. I Undeb y Chwarelwyr yr oedd dwy agwedd i'r gwaith priod hwn; yr oedd yn rhaid cadw cysylltiad rhyngddo â'r aelodau oedd ar wasgar mewn byddin a ffactri, ac ar yr un pryd gadw golwg ar fuddiannau y lleiafrif a arhosasent gartref. Eithriadol oedd yr agwedd gyntaf, ac yn hanes y cysylltiadau gyda'r lleiafrif gartref y gwelir cynnydd difreg rhai o'r amcanion newydd yr esgorasid arnynt cyn y rhyfel.

Gofal cyntaf yr Undeb yn ystod wythnosau cynnar y rhyfel ydoedd gwneud pob peth a allai i gyfarfod yr angen a gyfodai o ddiffyg gwaith. Sicrhodd gynrychiolaeth ar bwyllgorau angen y cylch, ac yn ystod y gaeaf bu'r pwyllgorau hyn yn brysur yn rhannu rhoddion o fwyd a dillad. Yn ystod 1915 bu'r Pwyllgor Gweithiol yn trafod y priodoldeb o roi rhodd sylweddol i Gronfa Tywysog Cymru, fel y gallent yn rhinwedd y rhodd honno dderbyn cynorthwy yn helaeth; ond oherwydd amgylchiadau eithriadol yr Undeb ar y pryd bwriwyd y syniad o'r neilltu.

Mor gynnar a diwedd Awst 1914, apeliodd y Llywodraeth am gydweithrediad yr Undeb i ffurfio adran newydd Gymreig o wirfoddolwyr yn y fyddin, a chydsyniodd yr ysgrifennydd i weithredu ar bwyllgor i'r perwyl hwnnw. Ymhen y flwyddyn drachefn bwriadwyd anfon nifer o weithwyr fel "labour corps" i Ffrainc, a gwnaed trefniadau rhag llaw gan yr Undeb i nifer o chwarelwyr diwaith ymuno. Ond am ryw reswm neu gilydd taflwyd y syniad o'r neilldu gan y Swyddfa Ryfel. Gwnaed apel gan y Llywodraeth ym mis Hydref, 1915, ar i'r Undeb wneud a allai i hyrwyddo "ricriwtio" ymhlith y chwarelwyr, ond teimlai y pwyllgor mai mater personol i bob aelod yn unigol ydoedd, ac na allent wneud dim yn swyddogol i hyrwyddo'r peth, a chrybwyllasant am eu polisi o gadw aelodaeth pob un a ymunai. Pan ddechreuwyd sefydlu pwyllgorau pensiwn yn 1916 cafodd yr Undeb ei le arnynt, ac yn "Ebrill, 1917, pan sefydlwyd "tribiwnals," gofaldwyd am gynrychiolaeth i'r Undeb ar bob un ohonynt. Ym Mehefin cynhygiwyd y swydd o "area substitution officer" tros Ogledd Cymru i'r ysgrifennydd, ond gan y dewisai yn hytrach aros gyda'r Undeb, fe'i gwrthododd. Yn Awst, fodd bynnag, gyda chaniatad y pwyllgor gweithiol, derbyniodd y swydd o Is-reolwr bwyd dros y Gogledd, swydd y bu ynddi hyd ddechreu 1918. Am rai misoedd cyn y diwedd yr oedd syniadau a chynlluniau lond yr awyr ar gyfer yr heddwch, a phan sefydlwyd Adran Gogledd Cymru o'r Cynllun Atdrefnu, cyfrannodd yr Undeb £2 as iddo, ac awdurdodwyd yr ysgrifennydd i eistedd ar y pwyllgor oedd i ddelio a chwarelyddiaeth. Pan ddaeth y syniad o gael cofeb i ddewrion Gwynedd a Phowys gerbron, cyfrannodd yr Undeb £100 tuagato.

III.

Yr Undeb a'i Aelodau.—Yn wyneb y diffyg gwaith helaeth a disyfyd, angen cyntaf yr Undeb yn ei gylch ei hun. oedd cyfaddasu y peiriant ar gyfair yr amgylchiadau eithriadol, ac yn ail, gwneud ei orau i geisio gwaith i'w aelodau mewn diwydiannau eraill. Yn gyntaf peth pasiwyd i ystyried pob un a ymunai â'r fyddin fel un allan o waith, ac i faddau taliad misol y rhai hynny; yna gostyngwyd y taliad i bawb a weithiai amser llawn neu fyr i 6c y mis. Yn ddiweddarach pasiwyd fod pob aelod a drosglwyddid i Undeb arall yn cael cadw ei aelodaeth yn Undeb y Chwarelwyr am yr un taliad. Prin iawn y gellid cael tro ar waith yr Undeb gyda thaliad mor isel, ac yn Ebrill, 1916, ar ol i'r cyfwng gwaethaf fyned heibio, fe'i codwyd yn ol i 1s y mis. Ond fe gadwyd aelodaeth y rhai oedd yn y fyddin. yn gyson a'r penderfyniad uchod, trwy gydol y rhyfel.

Cyn diwedd Awst fe gymerasai'r Undeb gamrau effeithiol i drafod y diffyg gwaith. Pwysleisiwyd bod i ysgrifenyddion y cyfrinfaoedid anfon rhestr gyflawn o'r diwaith a'u dibynyddion i'r swyddfa yn wythnosol. Anfonwyd pob manylion o'r safle yn y cylch. i'r Llywodraeth, ac anfonwyd i'r Cynghorau Sir cyfagos i ofyn am hyspysrwydd o bob gwaith a fyddai ar dro ganddynt. Ceisiwyd gan berchenogion Chwarel yr Oakeley weithio pedwar diwrnod yn lle tridiau, ac aeth yr ysgrifennydd i holi ynghylch posibilrwydd gwaith ar ddociau Lerpwl. Yn wyneb yr angen parhaol buwyd yn trafod y priodoldeb o estyn help o gronfa yr Undeb i'r anffodusion, ond oherwydd yr amgylchiadau enbydus teimlid y buasai hynny yn dihysbyddu'r gronfa, ac mai gwaith y Llywodraeth ydoedd cymryd y baich; fe ohebwyd â'r Llywodraeth ynglyn a'r mater.

Erbyn Chwefror, 1915, hysbysid bod yn agos i 500 o'r aelodau wedi eu trosglwyddo i undebau eraill; ac nid yn unig fe'u trosglwyddwyd ond sicrhawyd ychwanegiad cyflog i'r rhai oedd yn gweithio ar y rheilffordd yng Nghaerdybi. Yng nghyngor cyffredinol 1915 datganwyd diolch yr Undeb i'r ysgifennydd am ei ymdrechion egniol yn yr argyfwng. Ym mis Mai, ar gais yr Undeb, bu'r Swyddfa Ryfel yn chwilio melinau y chwareli er gweld a ellid eu gwneud yn ffactrioedd cad-ddarpar; ni chafwyd yr un ohonynt yn gyfaddas. Ni chollwyd unrhyw gyfle i gael gwaith i chwarelwyr mewn gwahannol rannau o'r wlad, ac wedi sicrhau y gwaith cedwid golwg yn gyson ar amodau cyflogiad y dynion yno.

YR UNDEB GARTREF.

I.

Y Cysylltiadau Undebol.—Nid yn hanes y wlad nac yn hanes yr aelodau ar wasgar y ceir golwg ar brif gyflawniadau'r Undeb yn ystod y rhyfel, ondi yn hytrach yn hanes y lleiafrif a arhosant gartref. Ar un ystyr yr oedd yr amgylchiadau yn annodd, gan fod mwyafnf yr aelodau oddicartref, a'r diwydiant yn ddibwys yn nigwyddiadan'r tlvdd. Ond yr oedd yr amgylchiadau anghyffredin yn-dclynt eu hunain yn dwyn elfennau newydd i gysylltiadau yr Undeb ar ei aelwyd ei hun, ac oherwydd iddo gydio â dwy law yn yr elfennau hyn y canwyd bron bob un o'r amcanion newydd a ymffurfiasant ym mryd yr Undeb cyn y rhyfel, gam sylweddol ymhellach. Un yn unig, yr amcan newydd mewn addysg i weithwyr, y bu raid ei roi heibio am gyfnod, ac y mae hynny yn berffaith ddealladwy yn wyneb y ffaith bod yr ifainc ar wasgar. Mewn un arall, a'r pwysicaf ohonynt, bu'r fath gynnydd nes gweddnwidd cysylltiad meistr a gwas yn y diwydiant erbyn dychwelyd o'r gwasgaredigion.

Oherwydd yr amgylchiadau gwasgai undebau llafur y deyrnas at ei gilydd fwy yn ystod y rhyfel; i undebaeth llafur pwysleisid y ffaith mai ar hyd llwybr cyfuno yr oedd datblygiad yn aros, ac yn wyneb y diffyg cyswllt oedd rhwng undebau chwarelyddol y deyrnas a'i gilydd, nid yw yn syn i Undeb yr Undebau yn ystod haf 1915 geisio ffurfio rhyw gynllun i'w cysylltu a'i gilydd. Ym Medi, 1915, galwyd cynhadledd o gynrychiolwyr pob undeb chwarelyddol trwy'r wlad i Gaerliwrhydd (Carlisle) i drafod y posibilrwydd o'u huno. Wedi ystyried y safle gwelwyd bod rhai pethau na ellid yn rhwydd eu trefnu yr amser honno, a phasiwyd i adael y mater yng ngofal Undeb yr Undebau hyd adeg mwy ffafrïol. Cyn i amser gwell ddod, fodd bynnag, yr oedd bryd Undeb y Chwarelwyr ar gysylltiadau eraill.

Yn y mater o drosglwyddo aelodau deuai Undeb y Chwarelwyr i gysylltiad ffurfiol âg amryw o Undebau yn ystod yr amser yma, ond rhyngddo â dau Undeb Gweithwyr y Dociau y bu'r gyfathrach helaethaf. Nid oedd y gyfathrach yn un hapus bob amser rhyngddo âg undeb James Sexton. Ym Mai, 1915, cwynid o Fethesda bod Undeb y Docwyr yn ceisio denu eu haelodau; yn Awst daeth cwyn gyffelyb o Borthmadog, ac erbyn 1916 yr oedd y cwynion yn ddigon mynych i beri i Undeb y Chwarelwyr anfon cwyn ffurfiol i Undeb yr Undebau yn erbyn y Docwyr. Dyfarnwvd o blaid yr Undeb. Gydag Undeb Ben Tillet (y "Dock, Wharf, Riverside, and G.W. Union") yr oedd y gyfathrach i gyfeiriad mwy ffrwythlon. Yn Awst, 1915, derbyniwyd cais ffurfiol oddiwrth yr Undeb hwnnw ar i Undeb y Chwarelwyr ymuno a hwy. Pasiwyd gan y pwyllgor gweithiol, os oedd dealltwriaeth i fod, mai cynghrair amddiffynol, a gadwai ei hunaniaeth i'r Undeb, a fyddai orau, ond gohiriwyd dod i benderfyniad ar y mater y tro hwnnw. Yng Nghynhadledd 1916 pasiwyd penderfyniad o eiddo Cyfrinfa Dinorwig yn ffafr dealltwriaeth rhwng y ddau undeb. Erbyn cynhadledd y flwyddyn wedyn fe dynasai yr ysgrifennydd gynllun o gytundeb rhwng y ddau, a gadwai i'r Undeb ei hunaniaeth yn ol y bwriad cyntaf. Ni chytunai y docwyr i hyn, a chrefent am gyfuno llwyr a hollol. Yn wyneb yr amgylchiadau glynai Undeb y Chwarelwyr hwythau wrth y syniad o ddealltwriaeth yn unig, a gadawyd y mater yn ben agored ar y pryd. Yn ystod 1918, ar bwys penderfyniad Cynhadledd 1917, bu'r mater dan ofal yr ysgrifennydd, ac ar Hydref 18 cyfarfu yr ysgrifennydd a William Morris Jones, Bontnewydd, a chynrychiolwyr y Docwyr. Ddeuddydd cyn terfyn y rhyfel, ar ol trafod adroddiad o'r cyfarfod hwnnw, pasiwyd i ohirio'r mater nes y deuai'r bechgyn yn

ol.

II.

Gwleidyddiaeth Llafur.—Yn ystod y rhyfel gwnaed cyfamod rhwng y pleidiau gwleidyddol nad oedd etholiadau achlysurol i'w hymladd o gwbl. Ni olygai hyn bod pob paratoad mewn gwleidyddiaeth i'w roi heibio yn y cyfamser; yn hytrach fe dreuliwyd y pedair blynedd i bwrpas gan Undeb y Chwarelwyr drwy ddarparu ar gyfer brwydr pan y deuai. Yr oedd digwyddiadau yn cadarnhau cywirdeb y bolisi y penderfynwyd arni ynglyn â sicrhau cynrychiolaeth seneddol uniongyrchol. Yn yr ymgais i wthio Bil Isrif Cyflog drwy y Senedd yn 1913 a 1914 gwelwyd gwerth y cysylltiadau gwleidyddol. Yn 1915 cwynid bod aelodau seneddol y ddwy sir yn anwybyddu y llythyrau a anfonid atynt gan yr Undeb a'r cyfrinfaoedd, ac yng nghyngor cyffredinol Chwefror pasiwyd pleidlais o gondemniad arnynt am hynny. Ond ym mis Mai y flwyddyn honno, pan aeth cynrychiolaeth Arfon yn wâg trwy farwolaeth William Jones, A.S., bu digwyddiad a wnaeth bolisi newydd yr Undeb mewn gwleidyddiaeth yn anorod.

Yn y gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd ar Fai 3, pasiwyd yn unfrydol benderfyniad yn datgan hawl yr Undeb i gael llais mewn enwi ymgeisydd i eistedd dros un o'r tair sedd, Arfon, Eifion, neu Meirion, pan fyddent yn wâg. Cyn pen deng niwrnod fe gyfodasai achlysur i weithredu yn ol hyn, ac fe alwyd pwyllgor gweithiol arbennig ar Fai 13, i ystyried y cwrs a gymerid. Yn absenoldeb yr ysgrifennydd, pasiwyd yn unfrydol i weithredu ar benderfyniad y gynhadledd, ac enwyd R. T. Jones fel ymgeisydd. Yr un pryd pasiwyd i anfon at Gymdeithas Ryddfrydol Arfon i'w hysbysu o hyn, ac i geisio dod i ddealltwriaeth; nodent, fel eu rhesymau dros enwi ymgeisydd, y nifer fawr o Undebwyr yn yr etholaeth a chanddynt ofynion arbennig, a'r cysylltiad agos oedd rhwng yr Undeb âg undebau eraill yn yr etholaeth. Gan iddynt fethu dod i ddealltwriaeth awgrymai y pwyllgor bod pôl o'r etholwyr i'w chymryd. Oedodd y Gymdeithas Ryddfrydol ateb y cais, er iddi gyfarfod yng Nghonwy yn ystod Mehefin i drafod y safle, ac ym mhwyllgor gweithiol Mai 29, anfonwyd ati drachefn, gan ail adrodd safle a cheisiadau'r Undeb, ac awgrymu cyfarfod o gynrychiolwyr y ddau bwyllgor. Ym mhwyllgor gweithiol Meefin 26, amlygwyd teimladau pendant o Fethesda a Dinorwig y dylai'r Undeb fynd â'r cwestiwn i etholiad pe gwrthodai y Gymdeithas Ryddfrydol gymryd pôl; yng nghyngor cyffredinol yr un dydd cadarnhawyd gwaith y pwyllgor gweithiol yn y mater, ond tueddent braidd i beidio ag ymladd ar hynny o bryd, ac oni wneid, bod trefniadau effeithiol i'w rhoi mewn llaw i ymladd y sedd yn bendant yn yr etholiad cyffredinol. Erbyn Gorffennaf 1, yr oedd atebiad y Gymdeithas Ryddfrydol i law; gwrthodent gyd drafod y mater o gwbl, ac enwent eu hymgeisydd eu hunain. Galwyd cyfarfod arbennig o bwyllgor gweithiol yr Undeb y diwrnod hwnnw i drafod y safle. Yno cafwyd ar ddeall gan rai a fu yng nghyfarfod dewis y Rhyddfrydwyr yng Nghonwy nad ymddygwyd gyda chwarteisi cyffredin tuagat geisiadau'r Undeb, ond yn hytrach eu trin a'u trafod yn ddiystyrllyd a gawsant. Teimlai'r pwyllgor bod yr Undeb wedi ei sarhau i'r eithaf yn yr achos, ac yr oedd nifer yn danbaid o blaid mynd ymlaen i etholiad. Teimlai rhai eraill yn wyneb argyfwng y wlad mai peidio oedd orau. Pan bleidleisiwyd yr oedd mwyafrif o blaid y cwrs olaf.

Aeth yr Undeb ati rhagblaen i baratoi ar gyfair ei gwrs gwleidyddol ei hun, ac i drefnu Radicaliaeth y sir yn blaid newydd. Yn yr un pwyllgor cymerwyd camrau i sicrhau trefnydd gwleidyddol. Yn nechreu 1916 anfonwyd i'r holl gyfrinfaoedd am eu

barn ar y symudiadau; yr oedd y cwbl ond dwy yn ffafr ymladd am sedd pan ddeuai etholiad, ac awgryment sedd Arfon. Yn y gynhadledd y flwyddyn honno treuliwyd y prynhawn mewn ymgom gyffredinol ar y mater. Cysylltwyd yr Undeb a Chyngres Lafur Gogledd Cymru; datganodd ei farn ar gwestiwn y ddiod trwy bleidio gwaharddiad llwyr, a datganodd o blaid pleidlais gyffredinol i ferched. Mewn cydweithrediad â Chyngor Llafur Sir Gaernarfon, aed ati i rannu y sir i bwrpas gwleidyddiaeth. Yn ystod 1917 cymerwyd barn y cyfrinfaoedd ar redeg ymgeisydd yn yr etholiad cyffredinol pan y deuai. Yr oedd Dinorwig, Bethesda, Nantlle, Penrhyndeudraeth, a Chesarea o blaid, a Glyn Ucha yn erbyn, ac enwasant yr ysgrifennydd. Yn ystod 1918 cafwyd cyfarfod o holl Undebau Llafur y Sir i drafod y safle, ac fel y cynhyddai'r argoelion bod heddwch ac etholiad yn agoshau, ar Dachwedd 2 dewiswyd yr ysgrifennydd yn ffurfiol fel ymgeisydd seneddol.

III.

Y Gyfathrach Newydd.—Ond y cyfnewidiad mwyaf a gymerodd Ie yn hanes yr Undeb yn ystod y rhyfel ydoedd y cyfnewidiad yn ei berthynas â'r cyflogwyr yn y diwydiant, ac yn hyn o beth y mae'r rhyfel yn drobwynt yn ei hanes. Yr yr amgylchiadau eithriadol hyn cyfododd mwy nag un achos yn galw am gydweithrediad er cyrraedd dibenion hollol estronol i'r diwydiant ei hun; er enghraifft, pan gydweithredodd yr Undeb gyda'r cyflogwyr ar fater sefydlu gwaith cad-ddarpar yn y cylch yn 1915, ac ar fater gwasanaeth milwrol gorfodol yn 1917. Ond pwysicach ac amlach oedd yr achlysuron pan wasgwyd cyfalaf a llafur yn y ddiwydiant i gydweithredu i amddiffyn y diwydiant rhag darfod yn llwyr. Fe ddigwyddasai hyn, mae'n ddiameu, beth bynnag fuasai cyflwr yr Undeb; ond ni ddatblygasai'r cydweithrediad tymhorol hwn yn berthynas newydd barhaus yn y diwydiant onibae bod yr Undeb mewn cyflwr effeithiol i gael ei gydnabod fel organ llafur yn y diwydiant. Ymhellach rhaid oedd i syniad yr Undeb am gylch ei wasanaeth fod yn un rhesymol, cyn y gellid cyfathrach ffrwythlon rhyngddo a'r cyflogwyr. Yn ffodus. meddai'r Undeb ar yr effeithiolrwydd a'r rhesymoldeb hwn, pan ddaeth yr awr; ac o ganlyniad, os am ddeall y datblygiadau yn iawn, dylid cofio mai oherwydd gosod y sylfeini cyn y rhyfel y gallodd yr Undeb fanteisio cymaint ar amgylchiadau'r rhyfel.

Amser tywyll oedd blynyddoedd y rhyfel i'r rhai a arhosasant gartref. Erbyn dechreu 1918 fe aethai prisiau bwyd i fyny 92 y cant, ond ym mharlystod y ddiwydiant yr oedd yn annodd, os nad yn amhosibl, codi cyflogau'r chwarelwyr, a gweithid amser byr yn y cwbl o'r chwarelau ymron. Yr oedd cyfalaf a llafur yn hollol at drugaredd yr amgylchiadau, ac yr oedd cydweithrediad i geisio adfer y diwydiant o gymaint lles i'r naill ag i'r llall. Yn nechreu 1915 ffynai anesmwythyd yn gyffredinol drwy'r chwareli, ac anfonwyd i'r gwahanol berchenogion i bwysleisio iddynt gynwr y dynion. Pan dderbyniwyd yr atebion, gofidient bob un yn ddieithriad bod safle pethau cynddrwg, a'r un pryd methent yn lân a gweld y ffordd i ysgafnhau'r baich. Dywedai'r Oakeley, Llechwedd, Maenofferen, a Manod mai o gydymdeimlad a'r dynion yn unig y cedwid y chwareli i fynd, nad oedd ddimai o elw yn cael ei wneud. Yr oedd ychydig yn well yn y Dinorwig a'r Penrhyn, a chan fod argoel i bethau wella rhyw ychydig dywedent eu bod yn bwriadu gweithio pum diwrnod yr wythnos yn lle pedwar. Yn ystod 1916 aeth yr Oakeley yn ol i weithio amser llawn, ond methent a chaniatau y codiad o 5 y cant a ofynid gan y dynion. Ym mis Ebrill cynhaliwyd cynhadledd ym Mhorthmadog ynglyn â'r fasnach, a phenodwyd cynrychiolwyr o'r Undeb i fod ar ddirprwyaeth i fyned at y

Llywodraeth i ddadleu tros y lechen. Cyn diwedd y flwyddyn cymerid golwg fwy gobeithiol ar bethau, ac yng nghylch Ffestiniog symudwyd ymlaen am godiad. Caniatawyd y codiad yn yr Oakeleys, ond cyn iddo ddod i rym rhoddwyd y diwydiant ar restr y rhai y gellid eu hepgor, a thynwyd y codiad yn ol. Yr un amser—yn nechreu 1917—bu gweithwyr Penyrorsedd allan am wythnos oherwydd gwrthod telerau gosod, a thalwyd budd i 11 o aelodau yno. Cydweithredodd yr ysgrifennydd ymhob modd er ceisio tynnu y diwydiant oddiar y "restricted list," ond bu raid aros hyd 1918 cyn y gallwyd gwneud cam helaeth ymlaen ym mater cyflogau. Pan wnaed cytundeb ar y mater, cytundeb ydoedd a arwyddai fod y berthynas rhwng yr Undeb a'r cyflogwyr yn un newydd.

Ar un olwg prin y gellid ystyried y dyddiau blinion hyn ar y ddiwydiant yn rhai ffafriol i ennill gwell telerau cyflogiad ynddynt. Buasid yn disgwyl y rhoddid ymaith bob syniad o symud yn ol y Siarter am amser, ond prif ffaith y blyneddod hyn ydyw i'r Undeb gadw y Siarter ar flaen ei raglen, a thrwy hynny fanteisio ar elfennau ffafriol yr argyfwng i'w sylweddoli. Fe sylwyd o'r blaen mai gwerth hanfodol y Siarter ydoedd ei ddarpariaeth ar gyfer gwella gwendid sylfaenol llafur mewn mater o sicrwydd cyflog a gosodiad rhesymol. Hanfod sicrhau y rhain eto ydoedd dealltwrtaeth arbennig â'r cyflogwyr. O ennill hwn mater hawdd oedd sylweddoli'r amcan, a hanes ennill y dealltwriaeth ydyw yr hanes presennol.

Mewn amryw o chwareli yr oedd talu wythnosol heb ei sicrhau erbyn y rhyfel, ac yn naturiol o dan yr amgylchiadau, gwesgid hyn ymlaen yn gryf, nes ei ennill yn fuan. Yng nghynhadledd 1915 pasiwyd bod camrau i'w cymryd i geisio gwella prentisiaeth yn y ddiwydiant, ond ar ol eu trafod fe'u tynnwyd yn ol ar y dealltwriaeth eu bod i'w sicrhau tra y byddid yn symud ymlaen am y Siarter yn gyffredinol. Ymhen y flwyddyn bron hysbyswyd bod cynllun o brentisiaeth wedi ei gychwyn yn y Penrhyn, ac o'i drafod gwelwyd mai cynllun tebig i gynllun y Siarter ydoedd, ond ei fod yn waelach na hwnnw. Yng Nghynhadledd 1916 pasiwyd penderfyniad yn annog y Pwyllgor Gweithiol i geisio sefydlu Bwrdd Cymod i'r ddiwydiant mewn cydweithrediad â'r cyflogwyr. Ymaflwyd yn y penderfyniad ar unwaith, ac mewn ymgynghoriad â Mr Ellis Davies, A.S., bu yr ysgrifennydd yn ceisio sefydlu bwrdd yn ystod gweddill y flwyddyn honno. Methai y Weinyddiaeth Lafur a chymryd yr arweiniad yn y mater heb i anghydwelediad gymryd lle yn gyntaf.

Erbyn 1917 bu datblygiad pwysig ymhlith y cyflogwyr. I gyfalaf mewn diwydiant, un o effeithiau mawr y rhyfel ydoedd pwysleisio pwysigrwydd cydweithrediad a chyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau effeithiolrwydd economig. Ers dechreu y rhyfel anogai'r Llywodraeth y cyflogwyr i ffurfio cymdeithasau ymhob diwydiant, ac yn 1917 ffurfiwyd cymdeithas o'r fath ymhlith perchenogion y chwareli, dan yr enw Cymdeithas Chwareli Gogledd Cymru. Mantais fawr oedd hyn i'r Undeb, oherwydd golygai bod unrhyw symudiad wneid o hyn allan rhwng meistr a gwas yn y diwydiant yn symudiad a weithredai drwy'r diwydiant i gyd. Erbyn Mawrth, 1917 yr oedd bron y cwbl o'r cyflogwyr wedi datgan eu parodrwydd i gydweithredu ym mater y Bwrdd Cymod. Mewn cyfarfod ym mis Mai datganodd perchenogion cylch Ffestiniog eu parodrwydd i symud ymlaen pe symudai'r lleill hefyd. Yn ystod Mehefin cyfarfu'r ysgrifennydd â rheolwyr Penrhyn a Dinorwig ynglyn a'r mater, ac allan o'r drafodaeth yn y Penrhyn daeth cynllun i reoli cysylltiadau gweithwyr a chyflogwyr yn y chwarel honno. Yn ol y cytundeb sefydlwyd peirianwaith i drafod unrhyw fater a allai godi, a gwelwyd, gan y golygai gydnabod yr Undeb yn swyddogol yng nghysylltiad y ddiwydiant, ei fod yn gam pwysig i gyfeiriad sylweddoli amcanion yr Undeb. Cyn

diwedd 1917 yr oedd cytundeb a pheirianwaith cyffelyb i un y Penrhyn wedi ei ennill yn Ninorwig ac yn yr Oakeley.

Yn eithaf naturiol, erbyn 1918 teimlid bod yr Undeb i symud ymlaen i geisio telerau gweddol unol a'r Siarter, ac yn Chwefror anfonwyd cais i'r gwahanol berchenogion am dâl wythnosol ac isrif o 4s 6c y dydd. Yn ystod Ebrill bu atebiad y perchenogion dan sylw yr aelodau yn y cyfrinfaoedd. Nantlle yn unig oedd yn ei erbyn; ac yn unol â barn y mwyafrif arwyddwyd y cytundeb cyffredinol cyntaf rhwng cyflogwyr a gweithwyr yn y diwydiant— cytundeb a ganiatai un o amcanion mawr y Siarter.

Gan fod cymdeithas newydd y perchenogion yn pennu prisiau gwerthu, gwelwyd bod angen, ar gyfair y dyfodol, rhyw raddfa i bennu codiad neu ostyngiad y cyflog i gyfateb i gyffelyb gyfnewidiad yn y prisiau. Pris y lechen bellach oedd i benderfynu'r cyflog, a gwnai'r egwyddor yma ryw fath o safon gosod yn anorfod. Yn ystod 1918 lluniwyd graddfa i'r pwrpas hwn, a phenwyd hefyd bod safon gosod i fod 1s yn uwch na'r isrif wrth y dydd. Erbyn diwedd yr haf yr oedd prisiau yn codi yn gyflym, a phasiwyd i wneud cais—ar sail y raddfa newydd—am godiad yn y cyflogau. Ar y 19 o Fedi daeth Cymdeithas y Perchenogion i gyfarfod y pwyllgor gweithiol i swyddfa'r Undeb. Gohiriwyd y drafodaeth hyd Hydref 3, a'r diwrnod hwnnw, wedi trafodaeth faith, pasiwyd bod cytundeb cyflogiad, agored i'w adolygu ar rybudd o dri mis, i ddod i rym ar y 15fed o'r mis hwnnw. Yn ol y cytundeb, yr oedd cyflog wrth y dydd i chwarelwr i fod yn 6s 6c; 6s i labrgwreigwyr; a 5s 9c i labrwyr. Yr isrif i fod yn 5s 9c i chwarelwyr a 5s 6c i labrgreigwyr a labrwyr; y safon gosod i fod 1s yn uwch na chyflog wrth y dydd ymhob achos. Ar ddiwedd y cyfarfod, ar gynhygiad W. D. Hobson, Penrhyn, yn cael ei eilio gan R. M. Greaves, Llechwedd, pasiwyd y penderfyniad a ganlyn.—"Ein bod yn gwerthfawrogi ymdrechion Mr R. T. Jones i sicrhau unoliaeth a chytgord mewn gwahanol faterion ynglyn â chwarelyddiaeth."

Pan ddaeth yr heddwch, y telerau yma, na bu eu cyffelyb yn y diwydiant erioed o'r blaen, oedd telerau gweithio yn y chwareli.

AMGYLCHIADAU NEWYDD.

I.

Cyfalaf a Llafur.—Hanes datblygiadau yn eu gweithio eu hunain allan i'w diwedd rhesymol ydyw hanes yr Undeb ers y rhyfel. Perthynant i amser mor ddiweddar fel na ellir ond eu nodi yn unig yma. Ffaith lywodraethol y blynyddoedd diweddar hyn ydyw'r berthynas newydd a fodola rhwng cyfalaf a llafur yn y diwydiant, ac ni ddaeth yn amser eto i geisio mesur effaith hyn yn ei holl agweddau. Digon yw dywedyd ei fod yn gyfnewidiad sydd yn newid ffordd llafur o edrych ar bethau, ac i raddau hefyd yn newdd y moddion a ddefnyddia i sicrhau'r gorau i'w aelodau; golyga rhyw fath o dechneg newydd mewn undebaeth, ac yn anad dim golyga ddileu nodau taeogrwydd llafur yn y ddiwydiant.

Fel y sylwyd yn barod sylfaen cyntaf yr awdurdod hwn o eiddo'r Undeb ydyw disgyblaeth y blynyddoedd cyn y rhyfel—disgyblaeth a ddygodd effeithiolrwydd i'r Undeb fel peiriant amddiffynol ac fel organ llafur, ac a roddes iddo ragolwg resymol a hyderus. Yna, yn ystod amgylchiadau eithriadol y rhyfel, bu'r effeithiolrwydd hwn ar ei braw yng nghyfeiriad gofynion gwlad ar y naill law, ac yn anhawsterau y ddiwydiant ar y llaw arall. Yn anhawsterau y ddiwydiant dechreuwyd cyfathrach newydd,—cyfathrach a'i sail ar gydnabyddiaeth o hawl yr Undeb i siarad tros lafur; a phan wasgwyd cyfalaf yn y diwydiant, er ei les ei hun, i unoli ei ymdrechion a siarad yn unllais yr oedd perthynas newydd y ddwy elfen ar y trothwy.

Yng ngrym y syniadau o atdrefnu diwydiant a bywyd economig y wlad, a oeddynt yn ennyn cymaint o sylw ar derfyn y rhyfel, planwyd y berthynas newydd yn arhosol yng nghysylltiadau'r diwydiant. Yn 1917 sefydlwyd Gweinyddiaeth Atdrefnu gan y Llywodraeth i arolygu trawsgyweiriad diwydiant a masnach o amodau rhyfel i amodau heddwch ac i awgrymu moddion i atdrefnu y bywyd cenedlaethol ar linellau y gwersi a ddysgwyd yn ystod y rhyfel. Ymhlith cynghorau eraill, sefydlwyd cyngor cenedlaethol ar gyfer atdrefnu diwydiant y chwareli, ac eisteddai'r ysgrifennydd arno fel cynrychiolydd yr Undeb. Yn wyneb anogaeth adran arall o'r Weinyddiaeth i sefydlu y cynghorau hyn yn barhaol mewn diwydiannau, ym mis Mai, 1919, daeth Cyd-Gyngor Cenedlaethol Diwydiant y Chwareli i fod, yn cynnwys cynrychiolaeth gyfartal o gyflogwyr a gweithwyr. Cynrychiolid y chwarelwyr llechi arno gan yr ysgrifennydd. Unwaith bwriedid sefydlu cyd-gynghorau o'r fath ymhob diwydiant chwarelyddol yn lleol, ac am yspaid sefydlwyd rhai yn ffurfiol yn y chwareli; ond gwelwyd bod y syniad yn anymarferol, a heddiw y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn unig a erys.

Serch hynny, tra yr oedd swm atdrefnu yn yr awyr yn y blynyddoedd cyntaf ar ol y rhyfel, yr oedd yr awyrgylch yn ffafrinol i elfennau y cydweithrediad a'r gyfathrach newydd sefydlogi yng nghysylltiadau'r diwydiant, a rhoi cyfle iddi i brofi ei gwerth. Ac yn arbennig ychwanegodd at hyder yr Undeb yn ei swyddogaeth a'i bwysigrwydd newydd.

II.

Cynnydd yr Undeb.—Yn ddigon naturiol effeithiodd y rhyfel yn anffrafrinol ar aelodaeth yr Undeb, a llesteiriodd y cynnydd a nodweddaei ei hanes ers 1909. Yn 1916 y cyrhaeddodd ei fan isaf, pryd y disgynodd i rhyw 2,650, ond o hynny ymlaen fe oresgynodd yr amgylchiadau yn raddol nes cyrraedd 4,000 ar ddiwedd y rhyfel. Yn ystod 1919 cynhyddodd hyd 6,500, ac erbyn 1925 yr oedd bron yn 9,000. Unwaith yn

unig o'r blaen y bu tros 8,000, sef ym mrwdaniaeth cyntaf ei sefydlu yn 1878. Edrydd y ffigyrau'r stori yn eithaf eglur, ac awgrymant gynnydd mewn gwaith a gwasanaeth. Yn yr awr dywyll yn niwedd 1916 anfonasai Cyfrinfa Ffestiniog gais at y pwyllgor gweithiol ar iddynt wneud ymuno a'r Undeb yn orfodol i unrhyw un a gyflogid fel chwarelwr. Er yn edmygu'r yspryd y tu ol i'r cais, bu raid i'r pwyllgor ei adael ar y bwrdd ar y pryd. Yn nechreu 1919, fodd bynnag, pan oedd y chwarelwyr ar wasgar yn dychwelyd, yr oedd yr amgylchiadau yn llawer mwy ffafriol i symud i'r cyfeiriad hwnnw. Yr oedd llawer o'r dychweledigion hyn yn perthyn i undebau eraill, a phwysodd y pwyllgor gweithiol arnynt mai aelodaeth yn Undeb y Chwarelwyr yn unig oedd yn cyfrif yn y chwareli. Rhoddwyd hen benderfyniad Ffestiniog ar raglen cynlladledd 1919, a phasiwyd ef yn unfrydol. Yn unol a hyn, ym mhwyllgor Gorffennaf pasiwyd i anfon llythyr argraffedig i bob anundebwr, yn rhoi mis o amser iddo ymaelodi, neu ynteu y byddid yn rhoi rhybudd i'r cyflogwyr i alw yr Undebwyr allan. Bu hyn yn effeithiol i ddwyn cannoedd i mewn, ac o hyn allan yr oedd anundebwyr yn y lleiafrif mawr ymhob chwarel. Bu symudiad cyffelyb ar raddfa lai yn Hydref 1924, pryd yr ymunodd cant o anundebwyr yn Ninorwig.

Parai y cynnydd hwn mewn aelodaeth, a'r cynnydd gwaith a olygai, bod symudiad i gyfeiriad cael rhagor o swyddogion cyflogedig yn anorfod, a phan symudwyd, ar linellau'r hen syniad o sicrhau swyddog i'r pedwar canolfan y gwnaed hynny. Yn niwedd 1917 bu farw W. H. Williams, Mynydd Llandegai, ac am yspaid bu'r Parch R. E. Davies, Llanllechid, yn gweithredu fel trefnydd cynorthwyol. Yng Nghynhadledd 1918 penderfynwyd penodi trefnydd sefydlog i gylch Ffestiniog, ac ym Mehefin penodwyd Joseph Williams, a weithredai ers peth amser fel ysgrifennydd y gyfrinfa yno. Yng Nghynhadledd 1919, drachefn pasiwyd bod yr Undeb i symud ymlaen i sicrhau trefnydd cyffredinol ychwanegol. Aed ymlaen i ddewis, ac yn Rhagfyr penodwyd R. W. Williams. Penygroes, i'r swydd. Ef a enillasai'r ysgoloriaeth i Goleg Kuskini yn 1913, a bu am yspaid ar ddechreu'r rhyfel yn cynorthwyo'r ysgrifennydd cyffredinol yn y swyddfa. Yng Nghynhadledd 1920 soniwyd am swyddog cyflogedig i roi ei holl amser i waith yr Undeb yn Llanberis, ac un arall ym Methesda. Ni wnaed dim hyd Gynhadledd 1922, pryd y soniwyd drachefn am swyddog i gylch Llanberis. Ym Mawrth, 1923, fe symudwyd ymlaen yn y mater, a phenodwyd J. H. Jones, Llanberis, a fuasai'n gweithredu am wyth mlynedd fel ysgrifennydd lleol.

Prin y gallasai'r Undeb ar ei gylch newydd aros ar yr hen daliad aelodaeth, ac yn Hydref, 1919 trafodwyd y priodoldeb o'i godi i chwe cheiniog yr wythnos. Cyn diwedd y flwyddyn cymerwyd pleidlais o'r aelodau ar y cwestiwn, ac yn y mis Chwefror dilynol fe'i codwyd. Golygai hyn newid peth ar y rheolau, a galluogai yr Undeb i helaethu'r buddion i'w aelodau. Ym mis Mai, 1920, penderfynwyd talu budd diffyg gwaith am gyfnod fel arbrawf, a thalwyd ef hyd 1923, pryd y bu raid atdrefnu yr holl fuddiannau i gyfarfod â'r cysylltiad newydd a ffurfiasid rhwng yr Undeb ac Undeb y Trawsgludwyr. Golygai'r cysylltiad newydd hwnnw gyfnewidiadau eraill ym mheiriant yr Undeb ond i linnell arall yn ei hanes y perthyn y stori honno.

III.

Llanw a Thrai.—Yn hanes y diwydiant yn gyffredinol rhaid sylwi ar un gwahaniaeth sydd rhwng ei safle cyn a chwedl'r rhyfel. Pan ddaeth yr heddwch ni adferwyd marchnad dramor cynnyrch y chwareli ond i raddau prin iawn. Cyn y rhyfel yr Almaen ac Awstralia ydoedd y cwsmeriaid tramor gorau a feddai'r ddiwydiant, ond

oherwydd cyfnewidiad ym mholisi masnachol y gyntaf a'r costau cludo uchel i'r olaf, aeth y drafnidiaeth yn ddim ymron ar ol y rhyfel. O'r herwydd, yn hanes adeiladu yn y wlad hon yr ysgrifennwyd prif linellau hanes y fasnach lechi ar ol y rhyfel, ac yn gymaint a bod y ddiwydiant adeiladu drachefn yn adlewyrchu yn deg gyflwr corff economig y wlad yn gyffredinol, nid yw hanes diwydiant y chwareli namyn adlewyrchiad o hanes diwydiannol Prydain yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ddiweddaed yw ffeithiau'r hanes fel na raid manylu ond ychydig arnynt yma. Hanes llanw a thrai ydynt, ac yn niwydiant y chwareli cyrhaeddwyd penllanw yn ystod 1921. Gellir ei fesur yn hwylus yn llinellau cost byw, pris cerrig, a chyflog. Ym mharlystod y rhyfel ni fu unrhyw ychwanegiad yng nghyflog y chwarelwr hyd 1918, ond fe aethai cost byw i fyny gymaint arall. Erbyn dechreu 1919 yr oedd y cyflogau 50 y cant yn uwch, ond yr oedd cost byw yn 110 y cant yn uwch nag yn 1914. Ar ol yspaid o ostwng yn 1919 aeth cost byw i fyny drachefn nes cyrraedd 150 y cant uwchlaw 1914, ac aeth cyflog y chwarelwr trwy nifer o ychwanegiadau nes cyrraedd pwynt yn 1920 oedd dair gwaith uwch na 1914. Bu cyflog ar ei fan uchaf o 12s 6c yn y dydd hyd ddiwedd 1921, pryd y dechreuodd pris y cerrig a chost byw ostwng. Trwy ostyngiadau, drachefn, disgynodd y cyflog i'r hyn ydyw heddiw. Er mwyn hwylustod, gellir defnyddio y trai a'r llanw hwn i ddisgrifio prif gyflawniadau'r Undeb mewn telerau gwaith ers diwedd y rhyfel.

Y BERTHYNAS NEWYDD.

I.

Y Llanw.—Bu cytundeb 1918 mewn grym hyd ganol 1919, ond cyn ei adolygu fe wnaed symudiad ar fater oriau. Bu'r cwestiwn hwn dan ystyriaeth y Cyd-Gyngor yn Llundain, ac wedi cael barn y cyfrinfaoedd arno, pasiwyd bod cais am wythnos o 44 iawr i'w osod gerbron y cyflogwyr yn eu cyfarfod nesaf. Ymarhous a fu'r rheiny i gyfarfod, ac mewn pwyllgor gweithiol arbennig a gynhaliwyd ym mis Ebrill penderfynwyd, yn wyneb anniddigrwydd pur gyffredinol a ffynai yn y prif chwareli, i roi rhybudd i derfynu'r cytundeb ac i wneud cais am ychwanegiad sylweddol yn yr isif, lleihad yn yr oriau, graddfa cyflog i brentisiaid a jermyn, a chynllun o dalu **bonus** ar y cynnyrch yn lle'r gyfundrefn osod a ddefnyddid; cydweithredai Undeb Gwyr y Porthladdoedd yn y cais. Ac eithrio'r cynllun o dalu **bonus** fe ganiatawyd y gofynion; lleihawyd yr oriau i gyfartaledd o 46 yn yr wythnos, codwyd yr isrif i 8s 3c yn y dydd, a sefydlwyd graddfa cyflog i brentisiaid. Yn y peth olaf hwn sicrhawyd y pwynt pwysicaf oedd yn weddill o'r Siarter heb ei sylweddoli.

Erbyn yr hydref teimlid y gellid symud ymlaen eto i wella'r cyflogiad. Lluniwyd ceisiadau newydd yn gofyn am godiad yn yr isrif i bob dosbarth, tâl yn yr wythnos gyntaf i newydd-ddyfodiaid yn y diwydiant, a chais am gyfarfyddiad i geisio llunio rhyw gynllun gwell o gymeriad. Rhoddodd y cyfrinfaoedd sêl eu bendith ar y ceisiadau. Methai'r cyflogwyr a chytuno â rhai; ohonynt, a rhoddwyd hwy i gyflafareddiad. Yn ol dyfarniad hwnnw codwyd yr isrif i 10s 3c y dydd i chwarelwyr, a threfnwyd, heb fynd i gyflafareddiad, fod blaendal o 30s i'w dalu i newydd-ddyfodiaid yn yr wythnos gyntaf. Ni awgrymwyd trafod gwell cynllun o gymeriad o gwbl, ond yn nyfarniad y cyflafareddwr fe enillwyd un peth a brisiai'r Undeb yn fawr, sef bod yr isrif hefyd i fod yn gyflog wrth y dydd.

Erbyn Mai, 1920, drachefn, yr oedd prisiau yn gyfryw fel yr ystyrid y dylesid cael codiad eto. Pasiwyd i ofyn am 15s fel cyflog wrth y dydd, ac ychwanegiad cyfatebol i ddosbarthiadau eraill o weithwyr. Bu raid anfon y cais hwn i gyflafareddiad eto, ac yr oedd y dyfarniad yn gyfryw, pes mabwysiedid yn llythrennol, ag a wnelai gam â nifer fawr o'r gweithwyr. Penderfynwyd ei ail drefnu mewn cydweithrediad â'r cyflogwyr, a gwnaed cytundeb a sicrhau isrif o 12s 6c yn y dydd i chwarelwr. Cyn diwedd y flwyddyn gwnaed cais am godiad arall, ond oherwydd bod peth ansicrwydd ynglyn â rhagolygon y fasnach, mewn prisiau cerrig a bwyd, pasiwyd i ohirio'r cwestiwn am dri mis.

Yr un amser bu digwyddiad a argoelai bod troad y llanw ger llaw. Ym mis Rhagfyr, 1920, hysbyswyd yr Undeb gan y perchenogion eu bod yn tynnu yn ol o'r cytundeb a fodolai rhyngddynt i gyflwyno i gyflafareddiad bob dadl y method cytuno arni, ond yn cadw'r hawl i benderfynu, wedi ystyried pob achos ar ei deilyngdod ei hun, a anfonid ef i gyflafareddiad ai peidio. Gofidiai'r Undeb yn fawr oherwydd hyn, yn gymaint a bod offeryn gwerthfawr i osgoi anghydfod a drwg deimlad wedi ei daflu o'r neilltu. Cyn pen ychydig fisoedd gwelwyd mai argoel drwg ydoedd; dechreuasai trai'r amgylchiadau.

II

Y Trai.—Er yn gwrthod cais diwethaf yr Undeb am ychwanegiad, cytunodd y cyflogwyr bod y cytundeb oedd mewn grym i aros hyd ddiwedd y Mehefin dilynol. Ym

mis Mai, 1921, rhoddodd y cyflogwyr rybudd i'w derfynu ymhen y mis, ond ni awgryment delerau newydd i gymryd ei le. Anfonwyd atynt yn cynnig i'r hen gytundeb sefyll am chwe mis ymhellach, ond dymunent hwy iddo redeg o fis i fis. Glynai'r Undeb wrth chwe mis, er yn barod i'w derfynu ar fis o rybudd. Yn ystod yr haf bodolai llawer o ansicrwydd yn y diwydiant, a chwynid bod amryw o'r chwareli yn bygwth gostwng y cyflogau. Ym mis Medi, rhoddodd y cyflogwyr rybudd drachefn i derfynu'r cytundeb, a'r tro hwn yn cynnig telerau eraill yn ei le,—telerau a olygai ostwng y cyflog wrth y dydd i'r isrif, a chytundeb i redeg o fis i fis. Gwrthodai yr Undeb yr olaf oherwydd yr ansicrwydd a olygai yn y diwydiant, ond yn wyneb y gostyngiadau mewn nwyddau adeiladu yn gyffredinol, teimlai mai ofer fyddai gwrthwynebu rhywfaint o ostyngiad. Ar Hyd. 12, cafwyd cyfarfod; o bwyllgor gweithiol y ddwy ochr. Eglurai W. D. Hobson, Penrhyn, ar ran y cyflogwyr, fod cystadleuaeth cerrig yr Unol Daleithiau a chynnwrf yr Iwerddon wedi amharu ar y fasnach, nes galw am ostyngiad mewn prisiau a chyflogau. Gofynent hwy am ostyngiad o 3s yn y cyflog wrth y dydd, a dalient yn gryf dros ostyngiad mwy na hynny yn yr isrif. Gwrthodai yr Undeb dderbyn cymaint o ostyngiad, yn arbennig yn yr isrif, a gohiriwyd y cyfarfod er galluogi yr Undeb i dynnu ceisiadau i gyfarfod rhai'r cyflogwyr. Penderfynwyd awgrymu i'r cyfrinfaoedd dderbyn gostyngiad o 2s 3c yn y dydd, ac mewn Cyngor Cyffredinol ar 24 o Hydref fe'i pasiwyd, ond safwyd yn bendant yn erbyn gostwng yr isrif yn is na'r cyflog wrth y dydd. Derbyniwyd y gostyngiad gan y cyflogwyr, a disgynodd y cyflog yn ol i'r hyn ydoedd ym Mehefin, 1920.

Yn ol y dealltwriaeth sylfaenol rhwng y ddwy ochr, yr oedd prisiau cerrig a chyflogau i gyd-gerdded, ond yn nechreu 1922 fe welwyd na ostyngwyd prisiau i gyfateb i'r gostyngiad yn y cyflog. Yn hyn o beth teimlid fod y cytundeb wedi ei dorri, ac anfonwyd i'r cyflogwyr i alw eu sylw at y mater, ac i ofyn am gyfarfod i'w drafod. Gwadent hwythau o'u hochr hwy bod unrhyw dor-cytundeb wedi cymryd lle, a datganent eu bwriad i wneud cyfnewidiad yn yr isrif; gofynent hwy am gyfarfod i drafod hwnnw. Cyfarfu'r ddwy ochr ar y 28 o Ionawr, ond glynai'r Undeb wrth eu haerriad nad oedd prisiau wedi gostwng ond 10 y cant tra y gostyngwyd y cyflog 18 y cant, a hawlient bod y gwahaniaeth yn ddyledus i'r gweithwyr. Anfonwyd at y cyflogwyr i'r perwyl hwnnw; gwadent hwy yr hawl, datganent fod pob peth yn ddarostyngedig i ddealltwriaeth ar gwestiwn yr isrif, ac edliwient na sylweddolwyd proffwydoliaeth yr ysgrifennydd na byddai i leihau yr oriau leihau dim ar y cynnyrch. Wrth ateb, awgrymodd y pwyllgor gweithiol fod y mater i'w drosglwyddo i Gyd-Gyngor Cenedlaethol y Chwareli i'w setlo, ond gwrthodai'r cyflogwyr hynny. Prynhawn Ebrill 19, bu cyfarfod arall o'r ddwy ochr, lle y pwysleisiwyd unwaith eto y gwahaniaeth rhyngddynt. Dadleuai'r Undeb o blaid cynllun sefydlog a graddfa i bennu cyflogau fesul prisiau, tra y dywedai'r cyflogwyr eu bod yn barod i drosglwyddo'r cwestiwn i gynrychiolwyr y ddwy ochr i'w drafod, ond bod yn rhaid ar yr un pryd drafod yr isrif hefyd i'r diben o'i ostwng. Ystyrient hwy ei fod yn gam a'r diwydiant i'r isrif fod yn gyfartal a'r cyflog dydd, ac awgryment ei ostwng i 6s 6c y dydd. Teimlai'r Undeb, o'r ochr arall, fod egwyddor bwysig yn y fantol yng ngwestiwn gostwng yr isrif, ac y byddai raid wrth farn yr aelodau yn gyffredinol i'w cyfarwyddo. Cynhaliwyd y cyfarfod o gynrychiolwyr y ddwy ochr, ac ynddo cytunwyd ar "sliding scale" a bennai'r cyflog yn ol pris y lechen, ond yr oedd barn y cyfrinfaoedd yn unfrydol a phendant yn erbyn ymyrryd a'r isrif. Hysbyswyd y cyflogwyr o hyn, ac atebasant hwythau fod yn rhaid iddynt gymryd y camrau a farnent yn orau. Yn niwedd mis Mai hyspysasant eu bod yn bwriadu gostwng yr isrif i ddwy ran o dair y cyflog wrth y dydd,

a'r gostyngiad i ddod i rym ar Fehefin 12. Hysbyswyd y cyfrinfaoedd o hyn, ond dalient hwythau yn dynn wrth en gwrthwynebiad. Methwyd a dod i gytundeb, ac ym Mehefin safodd y dynion allan am bythefnos. Yn ystod y pythefnos bu trafodaeth arall cydrhwng yr Undeb a'r perchenogion, a chytunwyd bod y cyflog wrth y dydd i'w ostwng i 9s 1c. Bu raid i'r Undeb roi ffordd i gais y perchenogion a derbyn isrif is na hynny, sef dwy ran o dair y safon cyflog, gyda 6c y dydd yn ychwanegol, ac awgrymwyd bod cyflogau o hynny allan i'w pennu wrth y "sliding scale."

Cyn diwedd y flwyddyn, ac yn ystod 1923, bygythiai anealltwnaeth godi ei ben eto ar gwestiwn cyfatebiaeth cyflog a phris yn ol y "scale." Yn ystod 1924 bu'r Undeb yn trafod y posibilrwydd o geisio codiad drachefn, ac ar ddiwedd yr haf anfonwyd cais am ychwanegiad yn ol 1s 2c yn y dydd, ac adfer yr isrif i fod yn gyfartal. Cafwyd cyfarfod o'r ddwy ochr ar Fedi 10, ond defnyddiai'r cyflogwyr ragolwg gymysglyd y fasnach fel rheswm dros wrthod. Oedasant ateb yn derfynol, fodd bynnag, hyd ddiwedd Ionawr, 1925, a phan ddaeth eu hateb i law, gwrthodent ganiatau'r un o'r ceisiadau. Yn wyneb hyn anfonwyd i'r cyfrinfaoedd am farn yr aelodau pa cwrs a gymerid, ac yn ol eu cyfarwyddyd hwy, anfonwyd y ceisiadau drachefn i'r cyflogwyr, gan bwysu arnynt yn arbennig gydweithredu mewn gosod i fyny rhyw gynllun pendant er sicrhau cyflogau yn cyfateb i'r prisiau. Gwrthodwyd hwynt yr eildro, a chan fod cyflafareddiaid allan o'r cwestiwn, soniwyd unwaith am sefyll allan. Ond yn wyneb yr holl amgylchiadau pasiwyd i beidio, ond yn hytrach i wasgu ymlaen am gynllun i gyfatebu prisiau a chyflog. Bu cyd-bwyllgor o gynrychiolwyr y ddwy ochr yn ystyried hyn, ac ar ddiwedd y flwyddyn cytunwyd ar gynllun a ganiatai gyfnewidiad o 3½c y dydd yn y cyflog ar gyfair pob cyfnewidiad o 5s y dunnell ymhris y lechen. Wrth y cynllun hwn y rheolir cyflogau yn y ddiwydiant ar hyn o bryd.

III.

Rhai Anhawsterau.—Ar un ystyr gellid galw'r holl gyfathrach ers y rhyfel ynglyn â chyflog yn frwydr yr isrif, yn arbennig felly ym mlynnyddoedd y trai. Yn berffaith deg, edrychai'r Undeb ar yr isrif fel un o elfennau gwerthfawrocaf eu safle, ac nid heb ymdaeru hir y goddefwyd iddo lithro yn is na chyflog y dydd. Ond ni welir y frwydr yn ei holl gwmpas yn yr amlinelliad uchod; ni roddwyd namyn hanes y gyfathrach swyddogol rhwng llafur trefnedig a chyfalaf trefnedig yn y diwydiant. Yn hytrach cymerodd y frwydr ffurfiau eraill, yn lleol,—ffurfiau yr oedd yn rhaid eu cyfarfod yn ol yr achlysur, fesul chwarel.

Tueddai'r cyflogwyr yn naturiol, oherwydd agwedd eu meddwl tuagat yr holl gwestiwn, i wneud gwahaniaeth rhwng dyn a dyn yn y diwydiant, ac i ystyried rhai yn anghymwysach nag eraill; a dadleuent tros osod isrif arall i'r rhai hynny. Ond o safbwynt yr Undeb, ar y llaw arall, yr oedd caniatáu gwahaniaeth fel hwn yn beth peryglus iawn, a'r agwedd bwysicaf ar frwydr yr isrif, ar wahan i'r drafodaeth gyffredinol, ydyw'r ymdrech a fu parthed cyflogiad y lleiafrif "anghymwys" yma.

Ymddangosai'r gynnen mor gynnar a 1919 yn y Penrhyn a Dinorwig, ond yn 1920 yr ymddanghosodd fel problem, ac ynglyn â'r ddwy chwarel hon yn bennaf y mae'r hanes. Daeth y peth i'w ystyried i ddechreu oherwydd gwaith y cyflogwyr yn gwrthod cyflogi rhagor o ddynion yn y ddiwydiant yn wyneb yr isrif a hawlid iddynt. Parodd hyn i'r Undeb roddi ystyriaeth fanwl i'r mater, a phenderfynwyd yn haf 1920 i'w anfon i'r aelodau yn y cyfrinfaoedd. Ym mis Hydref pasiwyd i fabwysiadu polisi o edrych i mewn i achosion a dybiai'r cyflogwyr na theilyngent yr isrif arferol am ryw reswm neu gilydd. Cyn diwedd y flwyddyn, fe dynnwyd allan restr o rai anghymwys yn

y Penrhyn a Dinorwig, a bu'r ysgrifennydd yn eu trafod gyda chyflogwyr y ddwy chwarel. Fe lwyddodd i dynnu'r nifer i lawr o 98 i 21 yn Ninorwig, ac o 52 i 32 yn y Penrhyn. Yn nechreu 1921 awgrymwyd yn swyddogol gan y cyflogwyr fod pob gweithiwr dros 70 oed i'w ystyried yn anghymwys, ac er na weithredwyd ar hyn, gwelir bod y syniad o raddoli yn mynd a'u bryd. Yn ystod y flwyddyn cwynid bod rhai yn cael eu derbyn yma ac acw i'r chwareli dan yr isrif, ac yn 1922 graddolwyd nifer yn Norothea ac Alexandra. Ond yn 1923 ymddangosodd ar raddfa go gyffredinol yn Ninorwig; eto, a rhoddwyd 97 o'r gweithwyr ar "restr arbennig" fel rhai anghymwys. Bu yr ysgrifennydd yn trafod eu hachos gyda'r oruchwyliaeth ac fe lwyddodd eto i dynnu y nifer i lawr i 59. Bwysiced ydoedd egwyddor y peth yng ngolwg yr Undeb fel na chollwyd cyfle o gwbl i wella safle y rhai hyn yn unol a'r bolisi a fabwysiadwyd yn 1920.

Perigl arall i safle ffafriol cyflogiad y gweithwyr ydoedd y duedd mewn rhai chwareli i beidio a gosod ar delerau rhesymol a roddai siawns i ennill y cyflog penodedig. Cwynid yn bur gyffredinol oherwydd hyn yn 1919, yn arbennig yn Ninorwig ac yn Ffestiniog. Ymddangosodd y drwg yn Ninorwig drachefn yn 1927. Dywedid fod prisiad gosod yno is nag mewn unrhyw chwarel arall, ac anfonodd yr Undeb gais at y goruchwylwyr lleol yn galw am ddiwygiad.

Yn y Penrhyn hefyd bu raid i'r Undeb ymyrryd ar ran y dynion ar fwy nag un achlysur yn ystod 1920 a 1921. Cwynid o dro i dro fod rhai gweithwyr yno yn tueddu i segura, ac yn 1921 bygythid atal 26 ohonynt. Danghoswyd, fodd bynnag, mai amgylchiadau yn y chwarel, yn codi o wahanol gyfnewidiadau yn y dull o weithio, a gyfrifai am eu segurdod, a daethpwyd tros y camddealltwriaeth.

Ond yn chwareli cylch Corris y bu'r drafferth fwyaf i'r Undeb. Yno, yn Aberllefeni, Braichgoch, Ratgoed, ac Abergynolwyn gwrthodai'r perchennog gydnabod y gwahanol gytundebau a reolent yn y rhelyw o'r ddiwydiant, ac yn ddiethriad bu'r gwrthod er gwaeth. Gelwid ar yr Undeb i ymyrryd ar ran y gweithwyr yn y naill neu'r llall ohonynt trwy gydol yr amser, ac nid yw'n rhyfedd ddarfod i'r Undeb, yn 1921, pan ddeallodd fod chwareli Mr Haydn Jones, A.S., wedi sicrhau'r gwaith o gyflenwi llechi i doi Neuadd Westminster, Llundain, anfon i'r adran honno o'r Llywodraeth a oedd yn gyfrifol am y gwaith, i'w hysbysu o delerau cyflogiad yn y chwareli hynny. Yr un flwyddyn bu 50 yn sefyll allan ym Mraichgoch oherwydd gostyngiadau, a diamau mai dyna a ddigwyddasai yno yn 1925 pe dewisasant gymryd y bleidlais a drefnasid iddynt gan yr Undeb.

O dro i dro cyfodai materion mewn gwahanol chwareli a olygai ymyrryd o gyfeiriad yr Undeb. Yn 1919 setlwyd cwestiwn "pen mis" yn Nyffryn Nantlle a "dechreu mis" yn y Cilgwyn, Alexandra, a'r Foel. Yn 1920 yr oedd y safle ym Mhantdreiniog, Abergynolwyn, a Llyn y Gadair yn hawlio sylw. Yn nechreu 1921 talwyd budd cloi allan i weithwyr Pant Dreiniog a'r Graig Ddu, a gwastatawyd cwyn perchenogion cylch Ffestiniog bod gwastraffu amser yn cymryd lle ymhlith y gweithwyr. Yn 1922 edrychai pethau yn fygythiol ymhlith certwyr y Llechwedd a'r Oakeley, a bu helynt ynglyn a nifer o weithwyr yn Ninorwig ac yn Norothea.

CYNNYDD Y CYSYLLTIADAU.

I.

Yn unol â'r penderfyniad y daethpwyd iddo ar ol y cyfarfod â chynrychiolwyr Undeb y Docwyr yn Nhachwedd, 1918, ni fuwyd yn hir cyn ceisio saernio cysylltiadau arhosol rhwng yr Undeb a chorff undebaeth yn gyffredinol. Pan wnaed cais i'r cyflogwyr yn Ebrill, 1919, am well telerau, gweithredai Undeb y Chwarelwyr law yn llaw âg Undeb Gweithwyr y Porthladdoedd, ac o weled y lles a ddeilliai o'r cydweithrediad nid rhyfedd i benderfyniad i ymuno ag un o'r undebau mawr ymddangos ar raglen cynhadledd y mis dilynol. Bu cyngor cyffredinol Awst yn trafod y mater yn ei holl agweddau, a phenderfynwyd symud ymlaen. Yn yr Hydref cafodd yr ysgrifennydd drafodaeth a J. R. Clynes, A.S., ar y mater, ac ar ddechreu 1920 cymerwyd pleidlais o'r chwarelwyr ar y cwestiwn. Cafwyd bod mwyafrif mawr yn erbyn.

Erbyn 1922, ymhlith cyfnewidiadau eraill ym myd undebaeth lafur, fe unasid y ddau brif undeb ymhlith y docwyr i ffurfio Undeb y Trawsgludwyr. Yng nghwrs ei ddatblygiad i gyfeiriad cyfuno gwahanol fân undebau, rhoddwyd gwahoddiad i Undeb y Chwarelwyr, drwy'r ysgrifennydd, i ddod i gyfarfod er mwyn trafod unwaith eto y cwestiwn o ymuno. Awdurdodwyd yr ysgrifennydd i wneud hynny ar yr amod ei fod yn diogelu hunaniaeth yr Undeb. A'r drafodaeth eto ar dro bu Undeb y Trawsgludwyr o gymorth sylweddol drwy ddylanwadu ar gwrs anghydfod diwydiant y chwareli ym Mehefin. 1922. Yn Awst bu cyfarfod o gynrychiolwyr y ddau Undeb yn y Swyddfa yng Nghaernarfon, a phasiwyd i gymryd pleidlais o'r chwarelwyr. Yn y bleidlais cafwyd mwyafrif mawr o blaid ymuno. Yn nhelerau'r uniad sicrhawyd hunaniaeth yr Undeb yn llwyr, ac ystyria'r Trawsgludwyr mai uniad i bwrpas ariannol ac economig ydyw. Bu peth atdrefnu ar beirianwaith yr Undeb fel canlyniad, a phasiwyd mai budd damwain yn hytrach na budd diffyg gwaith a delid i'r aelodau dan y berthynas newydd.

Trwy'r uniad hwn galluogwyd y'r Undeb i gymryd ei le yn llif bywyd undebaeth lafur yn gyffredinol, ac ar y un pryd i gadw ei arbenigrwydd ar gyfair ei wasanaeth gartref. Gellid lliosogi enghreifftiau i brofi y cysylltiadau eang a ffurfiwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Pan atdrefnwyd Cyngres yr Undebau yn 1921 ac y sefydlwyd y Cyngor Cyffredinol, fe etholwyd yr ysgrifennydd yn aelod ohono fel cynrychiolydd y diwydiannau mwnfaol a chwarelyddol, a gwasanaethodd ar y Cyngor hwnnw hyd heddiw. Ym mrwydrau mawr yr Undebau gwnaeth yr Undeb ei ran yn anrhydeddus. Rhoddwyd lefi ar yr aelodau i gynorthwyo'r glowyr yn 1921; yn 1922 cyfranwyd £25 yr wythnos am fis i gynorthwyo'r peiriannwyr yn eu brwydr hwythau. Yn 1925 ymrwymodd, trwy fwyafrif mawr, i ymuno ag undebau yn gyffredinol er amddiffyn eu hawliau, ac yn nigwyddiadau 1926 ni bu yr Undeb yn fyr o gyflawni ei ymrwymiad. Trwy gydol cloi allan y glowyr y flwyddyn honno cyfrannodd yr Undeb, trwy lefi ar yr aelodau, dros £5,600 iddynt.

II.

Addysg i Weithwyr.—Ar ol y rhyfel, ail ymaflwyd yn ddioed yn y gorchwyl o hyrwyddo'r mudiad newydd mewn addysg. "Erbyn heddiw saif Arfon a Meirion ymhell ar y blaen i bob sir arall yn y deyrnas yn eu hymdrechion i ddarparu addysg ar gyfair pobl mewn oed, a gwnaeth yr Undeb gyfraniad sylweddol i'r datblygiad hwn. Yn 1919 cyfrannodd £50 tuagat dreuliau y dosbarthiadau a gynhaliwyd gan y Coleg y gaeaf

hwnnw, ac yn 1920 cymerwyd cam a sicrhau y byddai'r cyfraniad hwn yn un blynyddol o hyn allan. Bu W. H. Williams, Mynydd Llandegai, farw yn 1917. Awgrymwyd y pryd hynny fod beth bynnag a wneid i goffhau ei wasanaeth i'r Undeb i gymryd ryw ffurf addysgol, ond ni wnaed dim ymhellach yr amser honno. Yn 1920, ail ystyriwyd y mater, a phenderfynwyd gwaddoli cwrs haf o ddarlithoedd mewn Economeg, Gwyddor Gwleidyddiaeth, a Llywodraeth Leol, yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, ar gyfer aelodau yr Undeb. Trosglwyddwyd £1,000 i greu y waddol, a chan y rhoddai y Bwrdd Addysg bunt ymhen pob punt o lŵg y waddol, golygai'r cynllun bod y Coleg yn derbyn cyfraniad o £120 bob blwyddyn ar gyfair addysg i weithwyr. Yn haf 1922 manteisiodd 15 o chwarelwyr ar y cwrs hwn yn y Coleg, a'r un nifer yn 1923 a 1924 drachefn. Yn 1925, o weld y galw cynhyddol am ddosbarthiadau yn yr ardaloedd, teimlid yr atebid gwell diben pe defnyddid y waddol i sefydlu dosbarthiadau newydd, ac awdurdodwyd y Coleg i'w defnyddio i'r pwrpas hwnnw am yspaid tair blynedd.

Cymerwyd cam pwysig arall yn hanes y mudiad yng Nghymru yn 1924 pan wnaed chwe sir y Gogledd yn ranbarth o Undeb Addysg y Gweithwyr, gyda Mr R. Silyn Roberts fel ysgrifennydd iddo. O'r cychwyn, R. W. Williams ddewiswyd yn drysorydd i'r rhanbarth, ac yn ystod blwyddyn neu ddwy gyntaf yr anturiaeth bu yr Undeb yn gymorth wrth raid iddi.

Oherwydd yr atdrefniant a wnaed yng ngronfeydd yr Undeb i gyfarfod a'r cysylltiad newydd rhyngddo âg Undeb y Trawsgludwyr, nid oedd yr arian ar gyfair gwaith fel hyn wrth law lawn mor hwylus a chynt; serch hynny, pan sefydlwyd Coleg Harlech yn 1926, fe benderfynwyd rhoi rhodd o £5 i bob aelod o'r Undeb ddymunai fyned yno am gwrs gaeaf, i fyny i ddeg o nifer, a dewiswyd yr ysgrifennydd yn un o is-lywyddion y Coleg.

III.

Yn Hydref, 1919, ar ol i bawb o'r chwarelwyr ddychwelyd, cymerwyd llais yr aelodau o'r newydd ar bolisi gwleidyddol yr Undeb, ac yr oeddynt yn unfarn bron o blaid cysylltu â'r Blaid Lafur. Golygai'r bleidlais bod rhyw gyfran o daliad pob aelod o hyn allan i'w defnyddio i ffurfio cronfa wleidyddol arbennig ynglyn â'r Undeb, a golygai hyn drachefn y byddai i'r Undeb chwarae rhan bwysig yng ngwleidyddiaeth Arfon a Meirion. Ym Meirion, ariannol yn fwy na dim arall, fu'r cysylltiad a gwleidyddiaeth Llafur y sir; derbynai y blaid yno gymorth o goffrau yr Undeb ar gyfair etholiadau Seneddol, ac ar gyfair digolledu yr aelodau eisteddent ar Gynghorau cyhoeddus fel cynrychiolwyr Llafur. Ond yn Arfon, yn ychwanegol at hyn, yr oedd y cysylltiad yn un mwy uniongyrchol a phersonol. Yn unol a'r penderfyniad y daethpwyd iddo yn 1917, fe ymladdasai yr ysgrifennydd am sedd Arfon yn etholiad 1918 fel ymgeisydd Llafur, a derbyniasai 8,145 o bleidleisiau. Yn etholiad 1922, gwedi ei fabwysiadu gan Blaid Lafur y Sir, fe enillodd y sedd. Fe'i collwyd drachefn yn etholiad y flwyddyn ddilynol, ac er na lwyddwyd i'w hadennill yn 1924 a 1929, fe fi cynnydd cyson ym mhleidlais Llafur yn yr etholaeth.

Yn ei gysylltiad a'r "Dinesydd Cymreig" fe gymer yr Undeb ei le yn hanes Gwasg Lafur Cymru. Pan sefydlwyd y papur newydd hwnnw gyntaf bu Undeb y Chwarelwyr yn gyfaill iddo pan mewn angen, a phan drosglwyddwyd ef i fod yn eiddo cwmni cyhoeddus, yr Undeb oedd un o'r cyfran-ddalwyr mwyaf.

Yn hanes Undeb y Chwarelwyr yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf atlewyrchir yn glir, megis mewn drych bychan, holl hanes diweddar undebaeth llafur y deyrnas yn gyffredinol. Gwnaeth y naill i chwarelwyr Arfon a Meirion yr hyn a wnaeth y llall i weithwyr gwlad, a'r un ydyw gorchestion y naill a'r llall yn ei gylch ei hun. Hyn efallai ydyw nod amgen y bennod olaf hon o'i hanes; golyga bod yr Undeb wedi ei gadw ar flaen llif syniadau diweddar mewn diwydiant, a chyfieithu y rhain yn effeithiol mewn polisi fu priod wasanaeth yr ysgrifennydd i chwarelwyr. Trwy wneud hyn fe enillwyd safle deilwng ac atdaliad rhesymol i lafur yn niwydiant y chwareli, ac odid mai dyma ffaith bwysicaf bywyd cymdeithasol Arfon a Meirion yn ein cenhedlaeth ni.